



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Dyfodol i Gymru



Cyfeiriadau a awgrymir:

Graham J, Azam S, Woodfine L, Dyakova M and Bellis MA (2018). Dyfodol i Gymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.

ISBN 978-1-910768-96-9

© 2018 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Y Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol

Llawr 5, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

Gellir ailgynhyrchu cynnwys yr adroddiad hwn yn unol â thelerau Trwydded Agored y Llywodraeth (OGL)

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny yn gywir ac na ddefnyddir y cynnwys mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid datgan cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cadw'r hawlfraint ar gyfer y trefniadau teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun.

Dylunio: Jenney Creative www.jenneycreative.co.uk

Rhagair

Dr Tracey Cooper a Sophie Howe

Mae ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i fwynhau cydnabyddiaeth fyd-eang, gan roi Cymru ar flaen y gad o ran creu dyfodol gwahanol ar gyfer cenedlaethau i ddod.



Er bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus bob amser wedi bod â chyfrifoldebau wrth ddarparu ystod o wasanaethau i gefnogi iechyd a lles, un o ofynion arloesol allweddol y Ddeddf yw'r ffocws ar genedlaethau'r 'dyfodol', sydd yn ôl diffiniad yn galw am ymagweddau newydd a gwahanol. Mae hyn yn ei dro yn golygu offer newydd, sgiliau newydd a dull gwahanol o feddwl lle mae angen i gynllunwyr, comisiynwyr, llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau gymryd safbwynt hirdymor i fynd i'r afael ag iechyd a lles yn eu poblogaeth a chyda'u poblogaeth.

Mae tystiolaeth yn awgrymu, heb fod yn annisgwyl, bod llawer o'n gyrff cyhoeddus a'n byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael trafferth i addasu i'r ymagwedd newydd hwn ac yn aml yn methu â 'gweld' mwy na thair neu bedair blynedd i'r dyfodol. Nid yw 'syniadau ar gyfer y dyfodol' yn newydd, ond mae ei ddefnydd gan wasanaethau cyhoeddus wedi bod yn gyfyngedig hyd yn hyn.

Â hynny mewn golwg, paratowyd yr adroddiad hwn gan lechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i gynorthwyo byrddau gwasanaethau cyhoeddus (PSBs), gyrff cyhoeddus, eu rhanddeiliaid a sefydliadau partner i fynd i'r afael â'r her yn fwy hyderus ac i nodi a defnyddio'r offer ac ymagweddau mwyaf priodol ar gyfer meddwl a chynllunio hirdymor.

Nid yw syniadau ar gyfer y dyfodol yn ymwneud â rhagweld y dyfodol ond mae'n ymwneud â datblygu dyfodol neu senarios amgen a'u defnyddio i lywio'r dull gorau o symud tuag at y dyfodol a ffefrir. Hefyd yn yr adroddiad hwn disgrifir nifer o ymagweddau, methodolegau ac offer a brofwyd mewn gwahanol sefyllfaoedd a sectorau a gobeithir y bydd hyn o werth i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am gyflawni'r agenda uchelgeisiol hon.

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud 14 o argymhellion pwysig ar gyfer sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus gymryd eu gwaith ar syniadau ar gyfer y dyfodol ymlaen - mae'r rhain wedi'u seiliedig o gwmpas:

- Sut mae gwaith ar syniadau ar gyfer y dyfodol yn cael ei gorffori mewn cynllunio sefydliadol
- Adeiladu gallu a sgiliau i wneud gwaith ar syniadau ar gyfer y dyfodol
- Buddsoddi mewn offer a dulliau am syniadau ar gyfer y dyfodol
- Defnyddio arbenigedd a phrofiad gwaith am syniadau ar gyfer y dyfodol, o fewn Cymru a thu hwnt
- Cydweithio a rhannu mewnwelediadau a gwybodaeth yn gysylltiedig â syniadau ar gyfer y dyfodol
- Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid mewn gwaith ynghylch syniadau ar gyfer y dyfodol
- Gwerthuso'r newid sy'n digwydd o ganlyniad i waith ynghylch syniadau ar gyfer y dyfodol.

Rydym am chwarae ein rhan wrth yrru'r gwaith hwn ymlaen, ac rydym yn buddsoddi gyda'n gilydd mewn swydd newydd a fydd yn canolbwyntio ar ymchwil ynghylch syniadau ar gyfer y dyfodol, er mwyn meithrin gallu a rhannu dysgu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r sgwrs ar syniadau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru a byddwn yn ceisio adeiladu ar y dysgu a'r wybodaeth a ddarperir gan yr adroddiad hwn i ragweld a mynd i'r afael â'r heriau sy'n dod i'r amlwg a'r cyfleoedd a fydd yn codi wrth i ni symud ymlaen at y dyfodol wrth greu dyfodol iach a chynaliadwy i Gymru.

Cynnwys

Rhagair	1
Crynodeb Gweithredol	4
Cyflwyniad	10
Methodoleg	14
Prif ganfyddiadau'r adroddiad	
Rhan 1: Y ddealltwriaeth bresennol o ddyfodol Cymru	15
Y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau llesiant	16
Newid yn y boblogaeth	17
Cymru ffyniannus	21
Cymru gydnherth	27
Cymru iachach	33
Cymru sy'n fwy cyfartal	41
Cymru o gymunedau cydlynus	43
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	46
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	48
Prif ganfyddiadau'r adroddiad	
Rhan 2: Datblygu meddylfryd tymor hir yng Nghymru	51
Dulliau	52
Astudiaethau Achos	59
Edrych tua'r dyfodol:	
Casgliad, argymhellion a'r camau nesaf	62
Geirfa	66
Byrfoddau	67
Cyfeiriadau	68

Awduron:

James Graham, Dr Sumina Azam, Louise Woodfine, Yr Athro Mark A Bellis, Dr Mariana Dyakova

Cydnabyddiaethau

Ira Ahokas, Finland Futures Centreⁱⁱ

Dr Clement Bezold, Institute for Alternative Futures, USAⁱⁱ

Anushya Devendra, Oxford Martin Commissionⁱⁱ

Dr Bogi Eliassen, Copenhagen Institute for Futures Studiesⁱⁱ

Dr Charles Featherston, Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DUⁱⁱ

Dr Kate Hamilton, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodolⁱ

Patrick Harris, Foresight - Growth Agendaⁱ

Cate Hasnain, Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DUⁱⁱ

Dr Henk Hilderink, Dutch National Institute for Public Health and the Environment (RIVM)ⁱⁱ

Adam Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymruⁱⁱ

Arjune Keshwala, Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DUⁱⁱ

Dr Mark Lang, Mark Lang Consulting, Deep Place Centre and Sustainable Places Institute (Prifysgol Caerdydd)ⁱⁱ

Nathan Lester, Iechyd Cyhoeddus Cymruⁱⁱ

Richard Lewis, Iechyd Cyhoeddus Cymruⁱⁱ

Dr Kirsty Little, Iechyd Cyhoeddus Cymruⁱⁱ

David Lye, SAMI Consultingⁱ

Cathy Madge, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodolⁱ

Dr Riel Miller, UNESCO, Parisⁱⁱ

Dr Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures a Phrifysgol Caerdyddⁱⁱ

Dr Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymruⁱⁱ

Dr Paul Plant, Public Health Englandⁱⁱ

Alun Rhydderch, Soif-Horizonsⁱⁱ

Dan Shotter, Public Health Englandⁱ

Professor Dave Snowden, Cognitive Edgeⁱⁱ

Malcolm Ward, Iechyd Cyhoeddus Cymruⁱⁱ

Dr Tom Wells, Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DUⁱ

Amy-Louise Williams, Cyngor Sir Powysⁱⁱ

Professor George Wright, Prifysgol Strathclydeⁱ

Hoffem ddiolch i Dr Charles Featherstone, Dr Henk Hilderink, Alun Rhydderch a Cathy Madge am adolygu'r adroddiad

Rydym hefyd yn ddiolchgar am gyngor ac arweiniad yr Athro Martin Rhisiart, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil i Ddyfodol ac Arloesedd ym Mhrifysgol De Cymru, a fu farw yn ystod cyfnod ysgrifennu'r adroddiad hwn.

i Cymerodd ran mewn trafodaethau grŵp

ii Rhoddodd gyngor ac arweiniad

Crynodeb Gweithredol

Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y tymor hir yng Nghymru, ac yn cynllunio ar ei gyfer. Mae hyn yn arbennig o berthnasol a phwysig nawr, o ystyried:

- Ein bod yn byw mewn byd sy'n fwyfwy newidiol a byd-eang, lle bydd datblygiadau a thrawsnewidiadau dros y ganrif nesaf yn fwy na'r milenia blaenorol. Mae hyn yn esgor ar sawl her, a'r rheini weithiau'n heriau nas gwyddwn amdanynt, yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd newydd.
- Nid yw'r polisiau a'r arferion presennol (sef parhau fel ag y mae) yn gynaliadwy yn y tymor hwy gan iddynt gostio'n ddud i ddinasyddion, cymunedau ac economïau cenedlaethol a lleol. Maent yn arwain at ehangu gagendor anghydraddoldebau; bygwth iechyd a lles pobl; a niweidio'r amgylchedd.
- Mae ystyried a gweithio i ddiogelu dyfodol y blaned a'i dinasyddion wedi dod yn duedd byd-eang. Mae'r holl wledydd wedi mabwysiadu Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy i roi diwedd ar dlodi, diogelu'r blaned a sicrhau ffyniant i bawb drwy gyflawni 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.
- Gall cynllunio ar gyfer y tymor hir ein helpu i wneud penderfyniadau gwell nawr, sy'n cynnig mwy o gadernid ar gyfer dyfodol gwahanol. Byddwn yn fwy parod i reoli materion ansicr a heriau nas rhagamcenir; i liniaru risgiau a chanlyniadau anfwriadol; a chanfod a gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd.
- Mae Cymru yn wynebu heriau parhaus ar draws genedlaethau ac amgylchiadau, ac ni ellir mynd i'r afael â'r heriau hyn oni bai ein bod yn gweithredu dull aml-asiantaeth ac yn dechrau ystyried dull tymor hir ac ymgorffori hynny ym mhob peth a wnawn.
- Mae Cymru wedi mabwysiadu ac ymrwymo i ddeddfwriaeth datblygu cynaliadwy sy'n ystyried y dyfodol, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd â'r nod o greu Cymru *yr ydym oll am fyw ynndi, nawr ac yn y dyfodol*.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio'r adroddiad hwn i gynorthwyo gwneuthurwyr polisi, cyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill ar draws sectorau, sy'n ystyried eu dull o gynllunio ar gyfer y tymor hir. Y nod yw canfod gwybodaeth ac offer allweddol i hwyluso'r gwaith o greu dyfodol cynaliadwy ar gyfer pobl Cymru, gan fynd i'r afael â'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu.

Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, *'Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'*, ac argymhellion yr adolygiad hwnnw. Mae'r adolygiad, sy'n rhoi crynodeb o'r wybodaeth, y prif faterion a'r themâu sydd wedi'u cynnwys mewn Asesiadau Llesiant, yn dod i'r casgliad bod *'diffyg amlwg mewn gallu a hyder wrth edrych ar yr hirdymor'* yng Nghymru a bod angen adeiladu capasiti i helpu i *'ddeall rhagamcanion, tueddiadau'r*

dyfodol ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cynnwys ystyriaeth o senarios a thuuddiadau sy'n llai sicr'.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r farn gyfredol ar faterion allweddol y dyfodol a allai effeithio ar lesiant Cymru ac sy'n seiliedig yn bennaf ar 19 asesiad o lesiant (asesiadau gan Fyrddau Iechyd Cyhoeddus o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol lleol, a gwblhawyd yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015).

Mae hefyd yn nodi dulliau ychwanegol y gallai Byrddau Iechyd Cyhoeddus a sefydliadau ddewis ymchwilio iddynt. Ni fwriadir i'r adroddiad hwn gynrychioli rhagolygon Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran dyfodol Cymru, ac nid yw'n bwriadu cynnig gwybodaeth fanwl am waith neu ragolygon y dyfodol chwaith. Nid yw'r adroddiad yn trafod dibynadwyedd y rhagolygon sy'n deillio o'r asesiadau o lesiant yn feirniadol; nid yw'n ffynhonnell gynhwysfawr o ddata a thystiolaeth chwaith.

Mae'r adroddiad hwn yn hwyluso'r gwaith o adeiladu capasiti a gallu i berfformio **'gwaith ar y dyfodol'** (ystyried y tymor hir a chynllunio ar ei gyfer), ac mae'n amcanu i hybu trafodaeth a dadl ar draws sefydliadau a sectorau, i helpu llywio dyfodol Cymru a llesiant ei phobl.

Mae pedair prif ran i'r adroddiad hwn

- 1) Cyflwyniad** – ystyried diffiniad, rhesymeg, heriau, cyfyngiadau a chyfleoedd gwaith ar y dyfodol.
- 2) Methodoleg** - amlinellu'r dulliau a'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd.
- 3) Prif ganfyddiadau'r adroddiad**
 - Mae **Rhan 1** yn cynnig crynodeb o faterion posib a allai effeithio ar ddyfodol Cymru.
 - Mae **Rhan 2** yn amlinellu'n fras y **dulliau** a allai helpu gwneuthurwyr polisi a sefydliadau i ystyried y dyfodol a chynllunio ar ei gyfer.

Mae adroddiad cefndirol ategol yn cynnwys manylion pellach ynghylch y canfyddiadau.

- 4) Canfyddiadau, argymhellion a'r camau nesaf** – amlinellu sut y gall Cymru ymgorffori dull o ystyried y tymor hir a chynllunio ar ei gyfer (hynny yw, gwaith ar y dyfodol) ar draws sectorau a sefydliadau.

Awgryma Rhan 1 o'r adroddiad hwn, sy'n tynnu ar ganfyddiadau Asesiadau o Lesiant yn bennaf, os yw'r tueddiadau cyfredol yn parhau, mae'r materion a allai effeithio ar lesiant Cymru yn y dyfodol yn cynnwys:

Newid yn y boblogaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Mae disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu 5% erbyn 2039, â'r cynnydd mwyaf ymhlith y rheini sydd dros 85 oed, a fydd bron yn dyblu o ran poblogaeth. • Erbyn 2066, bydd dyn 65 mlwydd oed yn gallu disgwyl byw tan iddo fod yn 90.3 oed (o gymharu ag 85.4 oed yn 2018) a bydd menyw yn gallu disgwyl byw tan iddi fod yn 92.3 oed (o gymharu ag 87.6 oed yn 2018) yng Nghymru. • Yng Nghymru, mae disgwyl cynnydd sylweddol erbyn 2039 yng nghyfradd y bobl hŷn o gymharu â phobl o oed gweithio. • Mae pobl yn byw i fod yn hŷn, ond heb fyw'n fwy iachus o anghenraid, gan arwain at gostau cynyddol i wasanaethau cyhoeddus.
Cymru ffyniannus	<ul style="list-style-type: none"> • Gallai gwariant ar iechyd yng Nghymru gynyddu o 42% o'r gyllideb refeniw (2010-11) i rhwng 57% a 67% erbyn 2024-25. • Dros y 10 i 20 mlynedd nesaf, bydd hyd at 35 y cant o'r swyddi presennol yn y DU yn wynebu risg uchel o gael eu hawtomeiddio. • Gall datblygiadau mewn technoleg, cyfrifiaduron a deallusrwydd artifisial arwain at golli 700 o alwedigaethau yn y DU. • Mae ansicrwydd ynghylch effaith Brexit ar faterion megis yr economi wledig, gwarchod bwyd, a'r farchnad lafur a chyflogaeth.
Cymru gydnerth	<ul style="list-style-type: none"> • Erbyn y 2050au yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd tymheredd cyffredinol yr haf yn cynyddu rhwng 1.0°C a 4.6°C, bydd cyfartaledd gwlybanaeth y gaeaf yn cynyddu o 14% a bydd cyfartaledd gwlybanaeth yr haf yn lleihau o 17%. • Yng Nghymru, mae newid hinsawdd yn esgor ar risgiau o fewn y ddwy genhedlaeth nesaf gan gynnwys llifogydd; sychder (â goblygiadau i amaethyddiaeth, y diwydiant ffermio a chynhyrchu bwyd); a difrod a wneir i ecosystemau a bioamrywiaeth. • Mae'r effeithiau ar iechyd y cyhoedd yn sgil newid hinsawdd yn cynnwys cyflwyno heintiau newydd, mwy o farwolaethau o achos gwres a llai o farwolaethau o achos oerni. • Rhwng 2004 a'r 2080au, amcangyfrifir y bydd cost y difrod a wneir gan lifogydd yng Nghymru yn cynyddu o £70 miliwn y flwyddyn i £1,235 miliwn y flwyddyn.
Cymru iachach	<ul style="list-style-type: none"> • Erbyn 2025, yn ôl yr ymdrechion presennol, ma cyfraddau ysmegu yng Nghymru yn debygol o ostwng i 15%. • Mae cyfran yr oedolion sydd dros eu pwysau neu sy'n ordew yn debygol o gynyddu o 58.3% (2013/15) i 62.2% (2025). • Mae rhagamcanion ar gyfer Cymru yn dangos rhwng 2017 a 2035 y bydd cynnydd yn nifer yr oedolion â chyflyrau cronig, gan gynnwys diabetes (o 186,365 i 220,376), cyflwr ar y galon (o 253,406 i 321,986) a strôc (o 69,656 i 90,214). • Erbyn 2035, bydd nifer yr oedolion â salwch meddwl cyffredin yn cynyddu o 417,121 yn 2017 i 447,159. • Tybir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n byw â dementia yng Nghymru yn cynyddu o 44,275 yn 2017 i 72,769 yn 2035.

<p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p>	<ul style="list-style-type: none"> Erbyn 2024, mae disgwyl i'r bwlch disgwyliad oes iach rhwng yr 20% mwyaf difreintiedig a'r 20% lleiaf difreintiedig ym mhoblogaeth Cymru fod yn 12.7 mlynedd ar gyfer menywod ac 11.4 mlynedd ar gyfer dynion. Rhwng 2014-15 a 2021-22 disgwylir i dlodi cymharol yn y DU gynyddu o 21.3% i 23.6%, gyda chynnydd mewn tlodi cymharol ymysg plant o 29% i 35.7%. Yn sgil diwygio llesiant, efallai y caiff £1 biliwn ei dynnu o economi Cymru, sy'n cyfateb i £550 y flwyddyn fesul oedolyn oedran gweithio. Erbyn 2019, mae disgwyl i fil bwyd blynyddol cartrefi gynyddu £350.
<p>Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae tua un o bob pedwar oedolyn sy'n byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o Gymru yn dweud eu bod yn teimlo'n unig, o gymharu ag un o bob wyth oedolyn sy'n byw yn yr 20% lleiaf difreintiedig o Gymru. Mae risg y bydd rhai grwpiau, megis cartrefi sydd ag un pensiywr yn byw ynnddynt, yn wynebu unigedd cymdeithasol ac mae'r sefyllfa hon yn debygol o waethgu yn yr ugain mlynedd nesaf. Erbyn 2020, bydd gofyn i landlordiaid cymdeithasol wella stoc tai er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. O fewn y 10 mlynedd nesaf, mae disgwyl i bob cartref yng Nghymru allu cael mynediad at y we, os bydd y cynnydd yn parhau ar y gyfradd bresennol. Fodd bynnag, gallai rhai grwpiau, megis pobl hŷn ar eu pen eu hunain, gael eu hallgau'n fwy fyth.
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<ul style="list-style-type: none"> Amcangyfrifir y collir rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn. Mae pryder bod risg y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei cholli erbyn cenedlaethau'r dyfodol, er gwaethaf y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg. Disgwylir bod cymunedau sy'n berchen ar leoliadau a gwasanaethau, neu gymunedau sy'n eu cynnal, yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad diwylliannol. Mae'n debygol y bydd y costau sydd ynghlwm wrth gael mynediad at weithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn cael effaith negyddol ar ardaloedd difreintiedig.
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<ul style="list-style-type: none"> O holl ddinasoedd mawr Prydain, mae disgwyl i Gaerdydd weld y cynnydd mwyaf yn y galw am nwy (44%) a thrydan (28%) erbyn 2035. Erbyn 2020, bydd tua 80% o danwyddau yn cael eu mewnfario o wledydd tramor. Erbyn 2021, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus un ardal yn rhagamcanu y gall 67% o'r defnydd o drydan ac 11% o'r galw am wres fod drwy ffynonellau adnewyddadwy. Mae gan Lywodraeth Cymru nod o fod â sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030, ac mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymrwymo i leihad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050.

Mae'r prif ganfyddiadau yn Rhan 2 yn cynnwys nodi dulliau i hwyluso trafodaeth strwythuredig ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol drwy **ddatblygu dyfodol amgen** at ddibenion astudio a gwerthuso. Bydd y dulliau hyn yn cefnogi unigolion, sefydliadau a llywodraethau i ddechmygu'r dyfodol a ffafrir a symud at y dyfodol hwnnw. O blith 14 o astudiaethau achos o Gymru, y DU ac yn rhyngwladol, rydym wedi datblygu dealltwriaeth o sut y gall gwahanol ddulliau, o'u defnyddio ar y cyd, helpu i nodi materion tebygol a all godi yn y dyfodol ynghyd â chyfleoedd ac atebion, ac a all yn ei dro lywio'r gwaith

o gynllunio a chreu polisi yn y tymor hwy. Mae **gwaith o'r fath ar y dyfodol** (ystyried a chynllunio ar gyfer y tymor hwy) yn caniatáu i unigolion a sefydliadau alinio eu strategaethau a'u buddsoddiadau i sicrhau'r buddion gorau dros y tymor hir ar gyfer y bobl sy'n byw yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

Nod ein **hargymhellion**, sy'n seiliedig ar ein hadolygiad o Asesiadau Llesiant, cyngor arbenigol a'r hyn a wnaethom ei ddysgu o astudiaethau achos, yw i gefnogi Cymru i fod ar flaen y gad yn mabwysiadu gwaith ar y dyfodol ac yn ymgorffori'r gwaith hwnnw'n ehangach. Maent wedi'u targedu'n bennaf at gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ond gellir eu cymhwyso i sefydliadau mewn gwahanol sectorau.

Ymgorffori gwaith ar y dyfodol i gynllunio sefydliadol

- 1 Rhaid i waith ar y dyfodol fod yn greiddiol i ymatebion cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 2 Dylai gwaith ar y dyfodol gael ei ddefnyddio i ymestyn cynllunio y tu hwnt i'r tymor byr a'r tymor canolig (3 i 5 mlynedd).

Meithrin capasiti a sgiliau ar gyfer gwaith ar y dyfodol

- 3 Meithrin capasiti, sgiliau a hyder ar gyfer gwaith y dyfodol drwy hyfforddi, mabwysiadu dulliau, dysgu o astudiaethau achos a chael arweiniad gan arbenigwyr yn y maes.
- 4 Meithrin sgiliau'r gweithlu iechyd cyhoeddus ymhellach, er mwyn iddo allu cefnogi gwaith yn dyfodol.

Buddsoddi mewn dulliau gweithio ar y dyfodol

- 5 Defnyddio data a thechnoleg i'r eithaf a buddsoddi mewn dulliau modelu i wella dealltwriaeth o effeithiau polisiâu a phenderfyniadau ar y dyfodol.
- 6 Sicrhau bod gwaith ar ddyfodol Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau presennol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth neu ar feysydd eraill sy'n destun gwariant sylweddol yn y sector cyhoeddus.

Cydweithio a rhannu mewnwelediad a gwybodaeth

- 7 Dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus rannu mewnwelediadau ynghylch y dyfodol a chydweithio wrth gynnal gwaith ar y dyfodol.
- 8 Sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar ddata, gwybodaeth, tystiolaeth, astudiaethau achos ac arfer addawol perthnasol, er enghraifft drwy un storfa a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd.

Defnyddio arbenigedd a phrofiad

- 9 Defnyddio arbenigedd sefydliadau (neu unigolion) sy'n brofiadol yn cynnal gwaith ar y dyfodol.
- 10 Dysgu o enghreifftiau o waith ar y dyfodol gan wledydd eraill ac ystyried sut y gellir cymhwyso hyn yng nghyd-destun Cymru.

Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid

- 11 Cynnwys cymunedau a dinasyddion o wahanol genedlaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, wrth wneud gwaith ar y dyfodol.
- 12 Wrth gynnal gwaith ar y dyfodol, dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus gynnwys rhanddeiliaid traws-sector o feysydd polisi, ymarferol a'r byd academiaidd.

Gwerthuso newid

- 13 Dylid adolygu statws gwaith ar y dyfodol fel mater o drefn.
- 14 Dylid gwerthuso unrhyw waith ar y dyfodol a wneir yng Nghymru.

Mae'r camau nesaf i Gymru yn cynnwys:

- Gofyn am gyngor gan arbenigwyr ym maes y dyfodol i helpu llywio'r gwaith a sicrhau y gwneir cynnydd yn gynnar.
- Canfod sut y gellir datblygu arbenigedd yn y gwaith o ystyried y dyfodol, lle yw'r man gorau i wneud hynny a lefel y buddsoddi sydd ei angen.
- Creu rhwydweithiau rhwng sefydliadau o wahanol sectorau, gyda'r nod o rannu dysg i ddatblygu arferion gwaith.
- Defnyddio adnoddau sydd ar gael yn barod, megis *Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru*, sy'n cynnig atebion cynaliadwy i sicrhau gwell canlyniadau yn economaidd ac o ran iechyd drwy ddulliau ymyrryd ag iddynt fanteision dros y tymor byr a'r tymor hir, a chefnogaeth ar gyfer y dyfodol a ffafir i Gymru.

Cyflwyniad


“By thinking creatively about the future – what might happen, what we would like to happen, what we would have to do to ensure that certain things happen – we, as individuals and communities, can prepare for tomorrow and make more rational decisions on the kind of future we desire and make an effort to achieve it.”

Sardar (2013)¹

Senarios gwahanol ar gyfer y dyfodol

O ystyried y dyfodol, rhaid meddwl am yr ansicrwydd a ddaw yn ei sgil, gan beidio meddwl am un dyfodol yn unig, ond yn hytrach sawl dyfodol amgen, â rhai o’r senarios yn fwy *tebygol* (tebygol o ddigwydd yn seiliedig ar dueddiadau presennol) neu’n seiliedig ar *ragamcan* (y dyfodol mwyaf tebygol, gan gymryd mai parhad yw’r dyfodol o’r hyn a fu) ac eraill a allai fod yn fwy *dymunol* (yr hyn yr ydym yn dymuno ei weld yn digwydd) (Ffigur 1).

Ffigur 1: Senarios gwahanol ar gyfer y dyfodol



Ffynhonnell: Rhaglen Ddatblygu’r Cenhedloedd Unedig, Canolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2018). Foresight Manual – Empowered Futures for the 2030 Agenda. Singapore: Rhaglen Ddatblygu’r Cenhedloedd Unedig


*“If health futures focuses too much upon the **probable**, which it has a tendency to do (planners, be they politicians or civil servants, or private business persons, like to know what to plan for, as do ordinary people), then it runs the risk, perhaps inadvertently, of disempowering people and denying them choice. If they are told ‘this is the **probable** future,’ then the only choices left for them are how to prepare for it, how to brace for it, how to deal with it when it arrives.*

*The **preferable** future, on the other hand, is a liberating and empowering future, especially when it touches our more creative capacities. It not only enables but encourages people to say ‘This is the future that we value and that we want to create.’ The energy and creativity released in a ‘preferable futures’ process can be quite astonishing”*

Hancock and Bezold (1994)²

Mae hanes hir yn perthyn i astudiaethau o'r dyfodol a gwahanol dulliau o astudio, sydd wedi deillio o wahanol rannau o'r byd, gan gyfrannu at ddefnyddio dulliau a therminoleg Saesneg sy'n wahanol i'r hyn a ddefnyddir yn astudiaethau'r dyfodol erbyn hyn. Mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg yn yr amrywiaeth o dermau a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwaith o astudio'r dyfodol (ffigur 2).

Ffigur 2: Llinell amser o'r termau Saesneg a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwaith o astudio'r dyfodol



Ffynhonnell: Wedi'i addasu o Sardar (2013)¹.

Pam cynnal gwaith ar y dyfodol?

"the prospective changes over the next hundred years are probably as great as those which have occurred over the last thousand"

Richard Slaughter (futurist), 1996³

Mae ystyried a gweithio i ddiogelu dyfodol y blaned a'i dinasyddion wedi dod yn duedd byd-eang. Mae'r holl wledydd wedi mabwysiadu Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy⁴ ti roi diwedd ar dlodi, diogelu'r blaned a sicrhau ffyniant i bawb drwy gyflawni 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig⁵.

Mae gwaith ar y dyfodol (sef ystyried y tymor hir a chynllunio ar ei gyfer) yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu dealltwriaeth o faterion a allai lywio a dylanwadu ar y dyfodol, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiâu neu strategaethau a fydd yn gadarn yn wyneb sawl gwahanol fath o ddyfodol. Gall gwaith o'r fath helpu wrth ystyried yr heriau yr ydym yn debygol o'u hwynebu yng Nghymru, ynghyd â'r heriau nas rhagamcener neu sy'n ansicr. Mae ystyried y dyfodol yn gyfle i gynnwys dinasyddion, gan ddefnyddio eu mewnwleidiad, eu gwybodaeth leol a'u harbenigedd i ddatblygu cydweledigaeth a symud i gyfeiriad y gydweledigaeth honno, a thrwy hynny ateb cwestiynau megis *'Sut yr ydym yn dymuno i'n cymuned fod yn y dyfodol'*.

Gallwn fwrw amcanion ynghylch yr effaith y bydd ffactorau megis newid hinsawdd, anghydraddoldebau byd-eang, llai o fioamrywiaeth, awtomeiddio, deallusrwydd artifffisial a nanodechnoleg yn ei chael ar lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae cynnal gwaith ar y dyfodol yn galluogi inni roi ystyriaeth ddychmygol ond systematig i'r canlyniadau gorau a'r gwaethaf y gellid eu hwynebu yn sgil y newidiadau hyn i'n cymunedau. O gynnal gwaith ar ddyfodol mewn modd trwyadl, gellir rhoi i'r sawl sy'n cyfrannu, boed yn bobl gyffredin ynteu'n wneuthurwyr polisi, y cyfle i ddychmygu sawl dyfodol posibl a'u gwerthuso'n feiriadol.

Weithiau, gall y dyfodol, gan gynnwys ei elfennau ansicr a'i heriau, deimlo'n bell i ffwrdd, yn anorfod neu hyd yn oed yn llethol. Mae temtasiwn i fod yn ddi-hid wrth ystyried gwerth cynnal gwaith ar ddyfodol oherwydd na all neb ddarogan yr hyn sydd i ddigwydd yn y dyfodol. Rydym yn tybio, yn fwy na thebyg, mai anghywir fydd y rhan fwyaf o gynigion i ddarogan y dyfodol. Gan hynny, rydym yn teimlo nad oes gennym hawl i fynegi barn, gwneud penderfyniad neu gymryd camau gweithredu ar gyfer y tymor hir. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru, *Tueddiadau'r Dyfodol*,⁶ yn cydnabod bod rhagamcanu y dyfodol yn dasg eithriadol o anodd ac nad yw ystyried y tymor hir fel mater o drefn yn rhywbeth sy'n dod yn naturiol. Yr hyn sy'n allweddol wrth fynd i'r afael â phryderon o'r fath yw cydnabod cyfyngiadau'r ymagwedd bresennol (gweler Blwch 1: *Cyfyngiadau allosod tueddiadau a rhagolygon*) a gwerthfawrogi mai'r nod yw astudio a gwerthuso dyfodol amgen, yn hytrach na cheisio rhagweld y dyfodol. Gall hyn helpu sefydliadau a llywodraethau i ddychmygu dyfodol a symud i'r cyfeiriad hwnnw⁷.

Y siwrne i gyflawni dyfodol cynaliadwy yng Nghymru

Mae ystyried y tymor hir a chynllunio ar ei gyfer yn hanfodol i Gymru, er mwyn mynd i'r afael â materion hollbwysig ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, megis newid hinsawdd, anghydraddoldebau a thlodi o ran iechyd; ynghyd â manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015c(y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf' o hyn ymlaen).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Y Ddeddf hon yw cyswllt a chyfraniad uniongyrchol Cymru i Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Mae'n ofynnol ar gyrff cyhoeddus i ystyried y '*tymor hir*', hynny yw, pwysigrwydd cydbwysio anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir.

Nid yw'r Ddeddf yn pennu'r cyfnod amser a olygir â'r '*tymor hir*', gan y bydd hyn yn dibynnu ar gyd-destun y penderfyniadau a wneir. Fodd bynnag, mae canllawiau statudol⁸ yn nodi yr ystyrir bod cenedlaeth yn 25 mlynedd, ac mae disgwyl i sefydliadau ystyried o leiaf 10 mlynedd i'r dyfodol, â'r arferion gorau yn ystyried 25 mlynedd (neu hwy) i'r dyfodol.

I ddeall yr heriau y byddwn yn eu hwynebu a'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**, y mae'n rhaid iddo roi ystyriaeth i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'r effaith a gaiff newid hinsawdd ar Gymru. Hefyd, rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- a) *Darogan tueddiadau tebygol y dyfodol yn llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru; ac*
- b) *Unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddol berthnasol y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried i fod yn briodol*

Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (sef partneriaeth leol statudol yn cynnwys yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a'r bwrdd Adnoddau Naturiol Cymru, ynghyd ag unrhyw gyfranwyr eraill a wahoddir) baratoi a chyhoeddi asesiad o lesiant lleol a rhaid darogan tueddiadau tebygol y dyfodol yn yr ardal⁹.

Er bod nifer o adroddiadau sy'n ystyried y dyfodol, prin iawn yw'r rhai sy'n ymwneud yn benodol â llesiant yng Nghymru. Mae cyflwyno'r Ddeddf wedi esgor ar newid, â byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cyhoeddi eu hasesiadau llesiant cyntaf yn cynnwys data, gwybodaeth a sylwadau ynglŷn â'r dyfodol; â Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi *Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol*¹⁰ ym mis Mai 2017.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn cynnwys trosolwg o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Aseidiadau Llesiant, gan gynnwys y prif themâu a'r materion y maent yn eu nodi¹¹. Mae'r adroddiad hwn wedi canfod bod '*diffyg amlwg mewn gallu a hyder wrth edrych ar yr hirdymor*' ac nad yw'r rhan fwyaf o'r aseidiadau yn rhoi ystyriaeth ystyrlon i heriau'r tymor hir, tueddiadau'r dyfodol na pholisi aml-ghenedlaeth. Mae'r Comisiynydd

wedi argymhell y dylid cynnal gwaith pellach i *'adeiladu capasiti, arbenigedd a hyder i ddeall rhagamcanion, tueddiadau'r dyfodol ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cynnwys ystyriaeth o senarios a thueddiadau sy'n llai sicr'*.

Mae'r Comisiynydd wedi nodi tri maes lle bydd ei swyddfa yn cefnogi cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i greu rhagamcanion, mewnwelediadau a thueddiadau cynyddol ar gyfer y dyfodol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau gwell¹²:

- Rhagamcanion a phrif dueddiadau cynyddol Cymru a fydd yn eiffeithio ar lesiant;
- Mewnwelediad rheolaidd i ystyriaethau cynyddol ynghylch y dyfodol a'r materion a drafodir ar draws y byd;
- Defnyddio mewnwelediadau'r dyfodol i roi dadansoddiad manylach o brif feysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt.

Gall gwaith ar y dyfodol gynorthwyo gwneuthurwyr polisi a chyrff cyhoeddus i lunio syniadau newydd ynghylch sut y maent yn rhagamcanu dyfodol economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru, a sut y maent am drawsnewid y dyfodol hwnnw.

Blwch 1: Cyfyngiadau allosod tueddiadau a rhagolygon

Mae'n bwysig ymdrin â'r dyfodol a seiliwyd ar ddata ac a ragwelir, h.y. allosod tueddiadau a rhagolygon, â gofal mawr. Mae'r dulliau hyn yn cynnig amcan o'r hyn a allai ddigwydd, o gofio ein sefyllfa bresennol a'n dealltwriaeth o dueddiadau'r gorffennol ac maent yn seiliedig ar nifer fawr o dybiaethau. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ragolygon yn cymryd bod llawer o ffactorau dylanwadol, os nad pob un ohonynt, yn aros yn sefydlog am y cyfnod rhagweledig cyfan, er enghraifft na fydd unrhyw newid gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol mawr, na fydd polisïau neu ymyriadau â'r nod o newid y patrwm presennol, ac na fydd newidiadau annisgwyl o ran poblogaethau. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn cymryd yn ganiataol na fydd unrhyw fannau gwastad naturiol, fel a welwyd yn achos ysmygu lle mae'r mynychder wedi sefydlogi yn dilyn cyfnod estynedig o leihad. Mae dulliau rhagweld fel arfer yn cymryd yn ganiataol nad oes unrhyw gyd-ddibyniaethau rhwng dangosyddion sy'n aml yn anghywir, er enghraifft gallai gostyngiad mewn marwolaethau o ganlyniad i glefyd y galon arwain at gynnydd yn y mynychder o ganser, sy'n glefyd sy'n gysylltiedig ag oedran.

Mae'r dulliau symlaf o ymgymryd â rhagolygon yn cymhwyso'r lefelau presennol i newidiadau rhagweledig yn y boblogaeth, a thrwy hynny ystyried ffactorau megis nifer gynyddol o bobl h n mewn poblogaeth. Gallai'r dull hwn fod yn addas i ddangosydd sefydlog. Fodd bynnag, nid yw ymagwedd o'i bath yn ystyried unrhyw dueddiadau amserol presennol o ran mynychder, megis lefelau cynyddol o ordewdra mewn poblogaeth. Gall defnyddio tueddiadau'r gorffennol gynnig llwybr byrdymor mwy cywir, os oes tueddiad yn y gorffennol sy'n rhesymol sefydlog, ac heb unrhyw newid hysbys neu ddisgwyliedig i'r dangosydd.

Po pellach i'r dyfodol yw rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol, mwyaf fydd yr ansicrwydd ynghylch y llwybr cyffredinol a'n hamcangyfrifon, a bydd y rhagolygon hyn yn mynegi dim ond yr hyn a fyddai'n digwydd os yw patrymau hanesyddol yn parhau ac mae'r newidiadau o ran poblogaeth yn datblygu yn unol â'r rhagolygon. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y patrwm yr arsylwyd arno'n parhau, ac nid oes unrhyw ffordd bendant o ragweld cyfeiriad neu ehangder unrhyw newid. At hynny, nid oes unrhyw ddull terfynol o gwblhau rhagolygon chwaith, ac mae dulliau gwahanol yn cynnig canlyniadau gwahanol.

"We are made wise not by the recollection of our past, but by the responsibility for our future"

George Bernard Shaw

Methodoleg

Ceir disgrifiad llawn o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad cefndirol atodol. I grynhoi:

Rhan 1

Cynhaliwyd adolygiad o 19 Asesiad Llesiant yn cwmpasu holl ardaloedd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, i ganfod tystiolaeth (meintiol ac ansoddol) a oedd yn rhoi mewnwelediad ynghylch y dyfodol yng Nghymru. Defnyddiwyd asesiadau llesiant fel y prif ffynhonnell gwybodaeth gan fod yr adroddiadau hyn yn nodi llawer o'r wybodaeth a oedd eisoes ar gael. Cafodd y canfyddiadau eu coladu a'u cyflwyno o dan saith Nod Llesiant y Ddeddf, gydag adran ar newidiadau i'r demograffig. Lle bo'n bosibl, canfuwyd gwybodaeth a data yn ymwneud yn benodol â Chymru; lle nad oedd modd gwneud hyn, defnyddiwyd data ar gyfer y DU. Dylid nodi y cyfeirir at Asesiadau Llesiant yn yr adran hon o'r adroddiad; ceir cyfeiriadau at y ffynonellau cynradd yn yr Asesiadau Llesiant lle bydd y rhain ar gael.

Rhan 2

Nodwyd ymagweddau, dulliau ac astudiaethau achos o Gymru ac yn rhyngwladol drwy gynnal adolygiad cyflym o lenyddiaeth, yn ogystal â thrwy gael cyfraniad arbenigwyr o'r yd academiaidd, y sector preifat a'r llywodraeth. At hynny, cafwyd adborth manylach gan arbenigwyr a gyfrannodd mewn grŵp trafod. Roedd y grŵp trafod hwn yn dilyn ymagwedd lled-strwythuredig a defnyddiwyd adborth i ddatblygu argymhellion ar gyfer yr adroddiad.

Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Rhan 1: Y ddealltwriaeth bresennol o ddyfodol Cymru



Y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau llesiant

Er bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau llesiant gynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau'r dyfodol, nid yw'n rhagnodi sut y dylid gwneud hyn. Mae cryn amrywiaeth rhwng yr asesiadau llesiant o ran eu dull, strwythur a lefel y manylder ar gyfer y wybodaeth sy'n ymwneud â'r dyfodol.

Ar y cyfan, mae'r asesiadau llesiant **wedi cael eu strwythuro** yn y ffyrdd canlynol:

Yn seiliedig ar y pedair thema llesiant (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) yn y Ddeddf (10 asesiad llesiant)	Yn nodi meysydd pwnc strategol drwy gynnal gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau lleol a staff (4 asesiad llesiant)
Ar sail cyfnodau cwrs bywyd o ddechrau ieuencid i'r blynyddoedd hyn (3 asesiad llesiant).	Trwy ddefnyddio'r 7 nod llesiant neu ganlyniadau tebyg ar draws y boblogaeth (2 asesiad llesiant)

Mae'r **dulliau** a ddefnyddiwyd mewn asesiadau llesiant i ganfod tueddiadau a materion y dyfodol yn cynnwys:

- Defnyddio'r **data a'r wybodaeth** sydd ar gael, gan gynnwys data rhagamcanion a thueddiadau'r dyfodol a'u heffeithiau posibl yn y dyfodol. Ychydig iawn o ddata rhagamcanion oedd ar gael, ac roedd byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn nodi'r bwlch hwn. Defnyddiwyd y data sydd ar gael, er enghraifft yr offeryn Rhagamcanu Dangosyddion Cenedlaethol¹³ a luniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, i wahanol raddau. Anaml y rhoddir ystyriaeth i gyfyngiadau data'r rhagamcanion tymor hirⁱⁱⁱ.
- Defnyddio '**dulliau gweithio ar y dyfodol**' megis ystyried gwahanol senarios.
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau** er enghraifft drwy gynnal arolygon, digwyddiadau a gweithdai creu senarios. Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau lleol a staff, â rhai ohonynt wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o ystyried y dyfodol. Er enghraifft, gofynnodd un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i blant ysgol gynradd "*Sut beth hoffech chi i lesiant fod yn y dyfodol?*"

Mae llawer o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau llesiant yn ansoddol ac yn seiliedig ar faterion a phryderon cyfredol.

Mae amserlenni ar gyfer asesiadau llesiant yn aml heb gynnwys digon o fanylion, â thua hanner y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio dulliau 'tymor byr, tymor canolig a thymor hir' wrth ystyried y dyfodol. Mae rhai byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn nodi eu bod yn ystyried 5 mlynedd i gynrychioli'r tymor byr, 10 mlynedd ar gyfer y tymor canolig, a rhwng 25 a 50 mlynedd ar gyfer y tymor hwy.

Mae'r casgliad o ganfyddiadau a ganlyn wedi'i strwythuro yn seiliedig ar saith nod llesiant i Gymru, gydag adran ychwanegol ar newidiadau demograffig. Fodd bynnag, mae'r holl themâu a phynciau a nodwyd wedi'u cysylltu â'i gilydd ac yn rhyngddibynnol (yn yr un modd â'r saith nod llesiant).

Dylid nodi nad yw'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgareddau a gynhaliwyd ers i'r asesiadau llesiant gael eu cyhoeddi yn 2017; mae sawl ardal leol ers hynny wedi dechrau cynnal gwaith cynllunio ar gyfer y tymor hir neu wedi dechrau ystyried senarios y dyfodol.



ⁱⁱⁱ Diffiniad rhagamcanion yw amcangyfrifon sy'n seiliedig ar dybiaethau ynghylch y dyfodol. Mae rhagamcanion tymor byr (3 blynedd) yn cynnig syniad o'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo os yw'r patrwm yn y data a arsylwyd yn parhau. Mae angen bod yn ofalus iawn wrth ystyried rhagamcanion ar gyfer y tymor hwy ac nid ydynt ond yn rhoi syniad o'r cyfeiriad cyffredinol os yw'r patrwm yn y data a arsylwyd yn parhau yn y tymor hir. Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Rhagamcanion Dangosyddion Cenedlaethol. Canllaw technegol. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Poblogaeth sy'n newid



Prif ganfyddiadau


- Mae disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu o 5% erbyn 2039, â'r cynnydd mwyaf ymhlith y rheini sydd dros 85 oed, a fydd bron yn dyblu o ran poblogaeth.



- Erbyn 2066, bydd dyn 65 mlwydd oed yn gallu disgwyl byw tan iddo fod yn 90.3 oed (o gymharu ag 85.4 oed yn 2018) a bydd menyw yn gallu disgwyl byw tan iddi fod yn 92.3 oed (o gymharu ag 87.6 oed yn 2018) yng Nghymru.
- Yng Nghymru, mae disgwyl cynnydd sylweddol erbyn 2039 yng nghyfradd y bobl hŷn o gymharu â phobl o oed gweithio.
- Mae pobl yn byw i fod yn hŷn, ond heb fyw'n fwy iachus o anghenraid, gan arwain at gostau cynyddol i wasanaethau cyhoeddus.

Rhwng 2015 a 2039, mae disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu o 5% o 3.1 miliwn i 3.28 miliwn¹⁴. Mae'r cynnydd mwyaf yn debygol o fod ymhlith y rheini sydd dros 85 oed lle mae disgwyl i'r boblogaeth fod dros ddwywaith yn fwy (cynnydd o 127%). Disgwylir i nifer y bobl rhwng 65 ac 84 oed gynyddu o 27%¹⁵.

Ffigur 3: Rhagamcanion poblogaeth fesul grŵp oedran. Mae'r golofn 'Absolute change' yn cynrychioli'r nifer, a'r golofn 'Relative change' yn cynrychioli'r ganran. Mae'r data yn seiliedig ar y newid rhwng 2016 a 2039 yng Nghymru. Mae gan y siart 'Relative change' echelin-x logarithmig.




Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio rhagamcanion poblogaeth yn seiliedig ar 2014 ac amcanion canol blwyddyn (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Y rheswm pennaf am y cynnydd yn nifer y bobl hŷn fydd y ffaith bod poblogaeth 'cenhedlaeth y cynnydd' (neu'r baby boomers) yn heneiddio a'r ffaith bod cynnydd yn nisgwyliaid oes pobl yng Nghymru¹⁶. Erbyn 2066, gallai dyn 65 mlwydd oed ddisgwyl byw tan iddo fod yn 90.3 oed a gallai menyw ddigwyl byw tan iddi fod yn 92.3, o gymharu ag 85.4 oed i ddynion ac 87.6 oed i fenywod yn 2018¹⁷. Dylid nodi bod cyfradd y cynnydd mewn disgwyliaid oes ar adeg geni yn y DU wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf (1980-82 hyd at 2009-11 o gymharu â 2010-12 i 2014)¹⁸.

Mae Ffigur 4 yn dangos rhagamcan y newid yn y gyfradd o bobl sy'n ddibynnol (nifer y plant a'r bobl hŷn o gymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio) rhwng 1991 a 2039 yng Nghymru, gyda chynnydd sydyn yng nghyfradd y bobl hŷn, a chyfradd sefydlog ar gyfer plant o dan 15 oed. Mae'r cynnydd hwn yng nghyfradd y bobl hŷn yn nodi y bydd rhagor o ddibyniaeth ar y boblogaeth o oedran gweithio oherwydd gofynion cynyddol ar gefnogaeth a gwasanaethau cymdeithasol¹⁹.


Ffigur 4: Rhagamcan o gyfradd y bobl 65+ oed a phobl o dan 15 oed sy'n ddibynnol fesul 1,000 o bobl rhwng 16 a 64 oed



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Mai 2017 (Yr adran boblogaeth, sleid 12)

Mae newidiadau demograffig yn debygol o effeithio ar drefi a dinasoedd mwy o faint i raddau helaeth, gan fod disgwyl cael yno dwf mwy yn y boblogaeth o gymharu ag ardaloedd mwy gwledig. Mae Ffigur 5 yn crynhoi rhagamcanion y newidiadau fesul awdurdod lleol rhwng 2014 a 2039.

Ffigur 5: Poblogaeth fesul awdurdod lleol yn 2014 a rhagamcan y boblogaeth yn 2039



Ffynhonnell: StatsCymru

Goblygiadau posibl yn sgil y newid demograffig:

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Mae disgwyliad oes wedi cynyddu ar gyfradd gynt na'r twf mewn disgwyliad oes iach, gan arwain at gostau cynyddol i wasanaethau cyhoeddus. Bydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â gofaluwr di-dâl yn wynebu mwy o bwysau oherwydd cyflyrau tymor hir, anghenion gofal sy'n fwyfwy cymhleth, a chyfnodau preswyl hwy a mwy rheolaidd yn yr ysbyty^{20,21}. Gall newid oedran derbyn pensiwn y wladwriaeth arwain at ragor o hawliadau am fudd-daliadau analluogrwydd gan bobl hŷn nad ydynt yn gallu parhau yn y gweithlu²².
- Bydd pwysau cynyddol ar gartrefi preswyl a nyrsio. Bydd angen ystod o opsiynau tai er mwyn caniatáu i bobl hŷn fyw'n annibynnol mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Yn ogystal, bydd angen i gymunedau ddod yn fwy 'cyfeillgar o ran oedran' i sicrhau bod pobl o bob oedran yn gallu cael mynediad at y gymuned a chyfrannu ati²³.


Yr economi a'r farchnad lafur

- Gall y gostyngiad yn y boblogaeth sydd o oedran gweithio o gymharu â nifer y pensiynwyr arwain at lai o refeniw treth, gan roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i roi gofal iechyd a gofal cymdeithasol²⁴.
- Ar hyn o bryd, mae pobl hŷn yn cyfrannu dros £1 biliwn (net) y flwyddyn i economi Cymru, hyd yn oed ar ôl tynnu'r costau sy'n ymwneud â llesiant, pensiynau ac iechyd. Yn y DU, rhagamcener y bydd cyfraniad net pobl hŷn yn cynyddu o £40 biliwn i bron i £75 biliwn y flwyddyn rhwng 2010 a 2030²⁵.

Tai a'r niferoedd sy'n byw mewn cartrefi

- Erbyn 2036, rhagamcener y bydd 190,000 yn fwy o dai yng Nghymru (cynnydd o 15%). Fodd bynnag, bydd cynnydd yn nifer y tai sydd ag un neu ddau berson heb blant yn golygu y bydd maint y cartref cyffredin yn lleihau²⁶. Ni ddigwyllir i'r cynnydd yn niferoedd y tai fod yr un fath ar draws Cymru; er enghraifft, erbyn 2024, mae'n debygol y bydd cynnydd o 32% yn nifer y tai yng Nghaerdydd, tra nad oes disgwyl dim newid ym Mlaenau Gwent²⁷.

Cymru ffyniannus




“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.”

Prif ganfyddiadau



- Gallai gwariant ar iechyd yng Nghymru gynyddu o 42% o’r gyllideb refeniw (2010-11) i rhwng 57% a 67% erbyn 2024-25.
- Dros y 10 i 20 mlynedd nesaf, bydd hyd at 35 y cant o’r swyddi presennol yn y DU yn wynebu risg uchel o gael eu hawtomeiddio.




- Gall datblygiadau mewn technoleg, cyfrifiaduron a deallusrwydd artifisial arwain at gollu 700 o alwedigaethau yn y DU.
- Mae ansicrwydd ynghylch effaith Brexit ar faterion megis yr economi wledig, gwarchod bwyd, a’r farchnad lafur a chyflogaeth.

Economi Cymru

Mae economi Cymru yn rhan o economi'r DU ac mae wedi'i dylanwadu gan ddatblygiadau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol ar lefel y DU ac yn fyd-eang²⁸. Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau llesiant yn ystyried economi'r dyfodol, naill ai o ran tueddiadau byd-eang neu gan ganolbwyntio ar Gymru, ac maent yn cynnig sylwadau ynghylch materion a phryderon posibl, fodd bynnag, mae'r data, ymchwil a thystiolaeth ansoddol atodol yn brin iawn.

Mae sawl bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn lleisio eu pryderon ynghylch dyfodol ansicr i'r economi a dirywiad economaidd posibl yn genedlaethol ac yn fyd-eang^{29,30}. Mae'r hinsawdd economaidd ansicr yn cael ei adlewyrchu yn rhagamcanion twf cynnyrch domestig gros (GDP) canolog y Du, fel y dangosir yn Ffigur 6. Mae'r graff yn seiliedig ar berfformiad rhagamcanion blaenorol ac yn dangos y rhagamcanion canolog (sef y canolrif, a welir ar ffurf llinell solet ddu), ynghyd â thebygolrwydd y gwahanol ganlyniadau^{iv}. Mae'r siart yn awgrymu bod chwarter siawns yn 2018 neu 2019 y bydd yr economi yn dirywio.

Ffigur 6: Siart o dwf gwirioneddol GDP hyd at 2022.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol³¹, y cyfeiriwyd ati yn Asesiad Llesiant Sir Fynwy³²

Mae asesiadau llesiant hefyd yn nodi ystod o ddylanwadau ar economi'r dyfodol gan gynnwys newid technolegol (yn cynnwys awtomeiddio, gyrru awtomataidd³³, dyfodiad y 'Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol'); cynyddu cystadleuaeth fyd-eang a globaleiddio (a ddaw ochr yn ochr a dadrithiad cynyddol³⁴); a mentrau polisi sylweddol megis hybu technolegau carbon isel.

Mae'r materion penodol sy'n berthnasol i Gymru yn cynnwys yr angen i ystyried cynllunio olynol yn yr economi wledig (gyda chenedlaethau iau yn gwneud dewisiadau gyrfaol gwahanol³⁵) a rhagor o ddibyniaeth ar y sector cyhoeddus i ddarparu cyflogaeth, lle byddai unrhyw achosion o golli swyddi yn y sector cyhoeddus neu lai o wasanaethau yn debygol o effeithio ar fusnesau lleol eraill^{36,37}.

Barn y gymuned

Roedd asesiad llesiant Cwm Taf yn cynnwys sylwadau gan drigolion ynghylch yr hyn yr oeddent yn teimlo ei fod yn hanfodol i'w llesiant economaidd ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Mae pobl hŷn wedi tueddu i gredu, er eu bod mewn sefyllfa anodd, mae eu sefyllfa'n gymharod gadarn o gymharu â sefyllfa pobl ifanc. Dywedwyd *"things will only get worse for future generations, the young people are the ones that will really feel the impact of the cuts"*

(Whealle, 2016)³⁸

iv Mae'r siart yn dangos tebygolrwydd gwahanol ganlyniadau yn seiliedig ar gamgymeriadau rhagamcanion swyddogol yn y gorffennol. Mae parau dilynol o ardaloedd llwyd golau yn cynrychioli band tebygolrwydd o 20%.

Gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy

Mae gan Lywodraeth y DU ymrwymiad parhaus i bolisi cynni, a ddaeth i rym yn wreiddiol yn dilyn argyfwng ariannol 2008. Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn dal i gael eu heffeithio gan gynni a phwysau parhaus ar eu cyllidebau dros y tymor hwy. Ar y cyfan, bydd cyllideb Cymru 8% yn is mewn termau real erbyn 2020 o gymharu â 2010³⁹.

Mae adroddiad diweddar yng Nghymru o'r enw *'Future Pressures on Welsh Public services to 2025'*⁴⁰ yn nodi er bod gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn lleihau, mae galwadau cynyddol ar wasanaethau dros y tymor hwy, ynghyd â disgwyliadau cynyddol o ran ansawdd gwasanaeth. Erbyn 2025, gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod â bwlch ariannu refeniw rhwng £2.6 biliwn a £4.6 biliwn (yn defnyddio prisiau 2010-11) a gallai'r bwlch hwn ddal i gynyddu hyd yn oed pan fydd cyllidebau yn cynyddu eto. Erbyn 2024-25, gallai gwariant ar iechyd gynyddu o fod yn 42% o'r gyllideb refeniw (2010-11) i fod rhwng 57% a 67%. Mae'r adroddiad yn nodi bod yr holl ymatebion yn cynnwys lefel o risg a bod tynnu arian o dop cyllidebau neu ddiogelu rhai gwasanaethau wneud niwed i ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Byddai gweithredu dull rhagweithiol a datblygu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn sicrhau gwell canlyniadau am lai⁴¹.

Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru, *'Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru'*⁴² yn nodi sut pam y mae heriau economaidd ac ariannol (gan gynnwys cynni) yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus a gwneuthurwyr polisi ddefnyddio tystiolaeth ac arbenigedd i sicrhau gwell canlyniadau economaidd ac o ran iechyd i Gymr, gyda pholisïau a mesurau ymyrryd ataliol yn arwain at fanteision dros y tymor byr a'r tymor hir i'r gymdeithas a'r economi. Mae'r costau economaidd a chymdeithasol sydd ynghlwm wrth barhau i weithredu'r polisïau a'r arferion buddsoddi presennol yn anghynladwy; gall dull sy'n seiliedig ar fuddsoddi ar gyfer iechyd a llesiant gan dargedu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth helpu i sicrhau cynaliadwyedd economaidd⁴³.

Goblygiadau Brexit

Mae nifer o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus – ond nid pob un – yn credu y bydd Brexit yn cael dylanwad sylweddol ar yr economi, gan arwain at fgythiadau a chyfleoedd, yn dibynnu ar natur perthynas y DU yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd⁴⁴. Yn benodol, mae ansicrwydd ynghylch yr effaith bosibl ar ardaloedd sy'n derbyn cyllid gan yr UE^{45,46,47,48}. Rhoddir sylw arbennig i'r effaith sylweddol bosibl ar yr economi wledig^{49, 50, 51} gydag ansicrwydd ynghylch beth a fydd yn cymryd lle y gefnogaeth bresennol, megis y Polisi Amaethyddol Cyffredin^{52, 53, 54}. Mae'r materion eraill a nodwyd yn cynnwys gwarchod bwyd⁵⁵, ty farchnad lafur a chyflogaeth⁵⁶.

Gweithlu sy'n newid

Mae newidiadau economaidd byd-eang yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar y farchnad swyddi. Dros y 10 i 20 mlynedd nesaf, bydd 35% o swyddi presennol y DU yn wynebu risg uchel o gael eu hawtomeiddio. Yn wahanol i fecaneiddio yn y gorffennol (sy'n golygu bod angen i bobl ddarparu gwybodaeth neu gyfarwyddyd), mae 'galwedigaethau coler gwyn' yn debygol o gael eu heffeithio⁵⁷.

Mae *'Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017'*⁵⁸ Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw awtomeiddio a thechnoleg newydd wedi arwain at brinder cyffredinol hyd yma o ran swyddi. Fodd bynnag, yn ôl Bank of England, yn y degawd nesaf, mae un o bob tair swydd yn y DU yn wynebu risg o gael ei hawtomeiddio yn sgil datblygiadau technolegol, cyfrifiaduron a deallusrwydd artifisial, gan arwain at golli 700 o alwedigaethau. O ganlyniad, bydd newidiadau sylweddol yng ngweithlu'r dyfodol.

Bydd 65% o blant sy'n dechrau'r ysgol gynradd yn gweithio mewn galwedigaeth nad yw'n bodoli eto.⁵⁹

Effaith technoleg newydd ar y gweithlu

Mae datblygiadau technolegol megis roboteg ac argraffu 3D yn debygol o gefnogi prosesau cynhyrchu sy'n fwyfwy effeithlon ynghyd â mwy o wasanaethau awtomataidd⁶⁰. Mae un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus⁶¹ wedi enwi pa alwedigaethau sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu hawtomeiddio, gan gynnwys swyddi cyffredin mewn swyddfeydd (er enghraifft, mewnbynnu data) a galwedigaethau corfforol mewn lleoliadau safonol (gweithgynhyrchu mewn ffatrioedd). Y swyddi sy'n wynebu'r risg leiaf yw'r rheini sy'n cynnwys lefel uchel o ryngweithio personol (er enghraifft gweithwyr gofal) neu lefelau uwch o ran ymchwil a rheoli. Yn y tymor hwy, gallai awtomeiddio olygu bod sgiliau a chyflogaeth yn seiliedig ar wybodaeth yn werthfawr iawn⁶².


Pwysigrwydd cynyddol gweithlu â sgiliau uchel

Mae gan Gymru gyfradd cyflogaeth is na'r DU (73% yng Nghymru o gymharu â 75.4% yn Lloegr yn cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2017 a Chwefror 2018⁶³), ac mae cyfradd uwch o'r rheini sydd mewn gwaith yn gweithio mewn swyddi nad ydynt yn 'werthfawr iawn' neu'n gofyn am 'sgiliau uchel'⁶⁴. Dylid nodi bod lefelau'r cymwysterau yng Nghymru wedi bod yn cynyddu ar gyfradd debyg i weddill y DU, gyda chyfran yr oedolion sydd oedran gweithio ac sydd â chymwysterau lefel gradd yng Nghymru yn uwch na nifer o ranbarthau yn Lloegr⁶⁵.

Yn debyg i wledydd datblygedig eraill, mae rhagamcanion yn dangos y bydd galw cynyddol yn parhau ar gyfer y rheini â sgiliau lefel uwch, gyda'r galw am sgiliau lefel is (yn enwedig y rheini a all gael eu hawtomeiddio) yn debygol o ostwng⁶⁶.

Yng Nghymru, mae'r rhagamcanion yn dangos tuedd tuag at niferoedd cynyddol o bobl mewn swyddi a galwedigaethau proffesiynol ym maes gofal, hamdden a gwasanaethau eraill, yn hytrach na galwedigaethau gweinyddol neu weithgynhyrchu⁶⁷ (Ffigur 7).

Ffigur 7: Rhagamcanion o gyflogaeth fesul galwedigaeth yng Nghymru. Rhagamcanion 2014-2024




Ffynhonnell: Working futures, Comisiwn y DU ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau, Mai 2016. Atgynhyrchwyd ar gyfer Asesiad Llesiant Wrecsam⁶⁸

Cymwysterau, incwm ac iechyd meddwl

Mae perthynas gref rhwng cyflog a lefelau cymwysterau, gyda chyflog uwch i'r rheini sydd wedi cymhwyso i lefel gradd neu uwch; nid yw hyn wedi newid er gwaethaf y cynnydd diweddar yn nifer y bobl sydd â chymwysterau lefel uwch⁶⁹. Mae ymchwil ddiweddar⁷⁰ hefyd wedi dangos bod perthynas gref rhwng sefydlogrwydd ariannol a chyfraddau salwch meddwl presennol (Ffigur 8). Mae 8.0% o'r rheini sydd wedi teimlo'n sefydlog yn ariannol am o leiaf 5 mlynedd yn adrodd iddynt fod â salwch meddwl, o gymharu â 31.6% o'r rheini sydd wedi teimlo'n sefydlog yn ariannol am fis neu lai.


Ffigur 8: Y gyfradd sydd â salwch meddwl wedi'i chyfosod â hyd sefydlogrwydd ariannol.



Ffynhonnell: Hughes K et al. (2018) Sources of resilience and their moderating relationships with harms from adverse childhood experiences. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus⁷¹ wedi ystyried rhagamcanion lefel incwm ar lefel leol a lefel genedlaethol. Mae cyflog wythnosol gros cyfartalog Blaenau Gwent (£408.90 yn 2016) yn is na chyfartaledd Cymru (£492.40 yn 2016), ac yn seiliedig ar dueddiadau diweddar, dylai'r bobl sy'n gweithio yn yr ardal weld cynnydd yn eu cyflog wythnosol erbyn 2020 (i £470 yr wythnos), ac felly hefyd weithwyr yn gyffredinol yng Nghymru (i £570 yr wythnos) (Ffigur 9)..

Ffigur 9: Cyflog wythnosol gros cyfartalog i bobl sy'n gweithio ym Mlaenau Gwent ac yng Nghymru (rhagamcanion)



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfeiriwyd at y ffynhonnell yn asesiad bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Blaenau Gwent (2017), t.131.

Sylwadau'r gymuned

Roedd trigolion ar **Ynys Môn** ac yng **Ngwynedd** yn datgan mai un o'r materion pwysicaf iddynt hwy oedd yr angen am swyddi, yn enwedig swyddi o ansawdd uchel⁷².

Mewn digwyddiad creu senarios yng nghymuned **Caerffili**, wrth ystyried y dyfodol, nodwyd bod trigolion yn credu y bydd technoleg yn sail i swyddi, sgiliau, cyflogaeth ac addysg i raddau llawer mwy helaeth, a bydd angen i'r cyhoedd a'r sector preifat fod yn ymatebol i'r amgylchedd hwn a fydd yn newid yn gyflym. Aethpwyd ymlaen i ddweud y bydd newidiadau i batrwm gwaith pobl hefyd yn nodweddiadol amlwg, gyda gweithio hyblyg yn dod yn norm. At hynny, maent yn tybio y bydd newidiadau i fudd-daliadau lles yn golygu y bydd mwy o anghydraddoldeb yn y gymdeithas o ran ffyniant⁷³.

Roedd arolwg a gynhaliwyd ymhlith trigolion **Castell-nedd Port Talbot** ynghylch llesiant economaidd yn dangos⁷⁴:

- Soniodd un o bob deg o ymatebwyr yr arolwg am 'straen' neu 'bryder' wrth drafod llesiant economaidd. Roedd unigolion mewn gweithdy yn ystyried dyled a phryderon ariannol i fod yn elfen o lesiant economaidd ac ariannol.
- Y ddau ffactor pwysicaf y nodwyd iddynt gyfrannu at sicrhau llesiant economaidd oedd cael swydd (51% o'r ymatebwyr) a safon byw da (26% o'r ymatebwyr).
- Pan ofynnwyd iddynt nodi beth fyddai'n gwella eu llesiant economaidd, dywedodd 36% o ymatebwyr yr arolwg mai codiad cyflog fyddai hynny. Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at ostyngiad mewn costau byw, er enghraifft llai o filiau i'w talu (yn ôl un o ymatebion yr arolwg).
- Roedd y rheini heb swydd yn ystyried llesiant economaidd i fod yn rhywbeth anodd i'w gael oherwydd anabledd, neu oherwydd cyfrifoldebau gofal plant. O ddewis cyflogaeth yn hytrach na hawlio budd-daliadau, ni fyddai'r cynnydd yn eu hincwm ond yn cael ei wario ar gostau gofal plant
- Soniodd y trigolion am y gyd-berthynas rhwng nifer yr oriau y gallent eu gweithio a'r effaith negyddol a gâi hynny ar y budd-daliadau y gallent eu hawlio. Roedd pryderon hefyd ynghylch nifer y contractau dim oriau a oedd yn rhoi diogelwch swydd cyfyngedig.


Canolbwyntio ar Leoedd

Mae nifer o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried ffyniant eu hardaloedd lleol yn y dyfodol, er enghraifft canfod cyfleoedd a risgiau ar gyfer canol y dref neu'r ddinas. Mae un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (Wrecsam) wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer canol y dref gan ganolbwyntio ar fanwerthu, hamdden a'r amgylchedd⁷⁵. Soniodd nifer o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd am ddatblygiadau mewn rhannau penodol o Gymru, megis Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd^{76, 77, 78, 79, 80, 81} a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe^{82, 83, 84}.

Astudiaeth achos lleol: Torfaen

Mae *'All Around Us: The Pontypool Deep Place Study'* yn ystyried trefniadau pontio Pont-y-pŵl tuag at gymuned fwy cynaliadwy erbyn 2035⁸⁵ ac mae'n cynnig y dylid datblygu sectorau o fewn yr economi sylfaenol megis bwyd, ynni ac arbed ynni, gofal, yr amgylchedd, ynghyd â chefnogi gweithgarwch economaidd presennol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cymunedau ac economïau lleol yn fwy cydnherth yn wyneb digwyddiadau allanol annisgwyl ac yn diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol⁸⁶.

Cymru gydnerth




“Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).”



Prif ganfyddiadau

- Erbyn y 2050au yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd tymheredd cyffredinol yr haf yn cynyddu rhwng 1.0°C a 4.6°C, bydd cyfartaledd gwlybanaeth y gaeaf yn cynyddu o 14% a bydd cyfartaledd gwlybanaeth yr haf yn lleihau o 17%.



- Yng Nghymru, mae newid hinsawdd yn esgor ar risgiau o fewn y ddwy genhedlaeth nesaf gan gynnwys llifogydd; sychder (â goblygiadau i amaethyddiaeth, y diwydiant ffermio a chynhyrchu bwyd); a difrod a wneir i ecosystemau a bioamrywiaeth.
- Mae’r effeithiau ar iechyd y cyhoedd yn sgil newid hinsawdd yn cynnwys cyflwyno heintiau newydd, mwy o farwolaethau o achos gwres a llai o farwolaethau o achos oerni.
- Rhwng 2004 a’r 2080au, amcangyfrifir y bydd cost y difrod a wneir gan lifogydd yng Nghymru yn cynyddu o £70 miliwn y flwyddyn i £1,235 miliwn y flwyddyn.

Effeithiau newid hinsawdd

'Nearly 80% of the total land area of Wales is used for agriculture, while around 30% has recognition or protection for its environmental value. These features give Wales its unique character and define the nature of its exposure to weather and climate impacts.'

Asesiad Llesiant Caerffili (2017)⁸⁷

Roedd pob un o'r asesiadau llesiant bron yn nodi'r rhan sylweddol y bydd newid hinsawdd yn ei chwarae yn y dyfodol. Yng Nghymru, erbyn 2040, mae cynhesu byd-eang yn debygol o arwain at⁸⁸:


- Hafau poethach, sychach
- Gaeafau cynhesach, gwlypach
- Lefel dŵr daear is
- Llai o eira a rhew
- Tywydd eithafol yn amlach er enghraifft sychder, tywydd poeth, stormydd, tymhestloedd, a glaw trwm.

Mae cyfartaledd tymheredd blynyddol Cymru eisoes wedi cynyddu o 8.69OC (1910-1939) i 9.22OC (1984-2013)⁸⁹.

Erbyn 2050, mae disgwyl i ganolrif tymheredd yr haf yng Nghymru gynyddu o rhwng 1.0°C a 4.6°C⁹⁰. Amcangyfrifir, erbyn 2050, y bydd cynnydd o 14% (amrediad cynnydd o 2% i 30%) yng nghanolrif gwlypter y gaeaf, a gostyngiad o 17% (amrediad rhwng gostyngiad o 36% a chynnydd o 6%) yng nghanolrif gwlypter yr haf yng Nghymru⁹¹.

Mae'r rhagamcanion ar gyfer Caerdydd hyd at 2041-60 yn dangos canlyniadau tebyg (Ffigurau 10 ac 11).


Ffigur 10: Rhagamcan o dymheredd arwynebol dyddiol uchaf yn ystod yr haf (OC) yng Nghaerdydd, 1961-1990 yn ôl arsylwad 1961-1990 a rhagamcan 2041-2060



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data o Brown et al. (2014), CCRA2 Evidence Report, via ASC (2016) UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report – Summary for Wales^v.

^v Nid yw'r echelinau yn dechrau ar 0. Dim ond gyfer Caerdydd y mae data ar gael a rhaid gofalu rhag cyffredinolir rhagamcanion hyn Gymru gyfan.

Ffigur 11: Rhagamcan 5 diwrnod ar gyfer cyfanswm cronni glaw yn ystod y gaeaf (mm) yng Nghaerdydd, 1961-1990 yn ôl arsylwad a rhagamcan 2041-2060



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data o Brown et al. (2014), CCRA2 Evidence Report, via ASC (2016) UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report – Summary for Wales^v.


Yng Nghymru, heb addasu'r cynlluniau presennol, mae newid hinsawdd yn esgor ar nifer o risgiau dros y ddwy genhedlaeth nesaf^{92,93}:

- Llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithio ar fusnesau, cymunedau a seilwaith er enghraifft ffyrdd, rheolffyrdd, trosglwyddo trydan a mynediad at ddŵr glân.
- Sychder, gyda goblygiadau ar gyfer cyflenwad dŵr cyhoeddusl difrod i fioamrywiaeth; bygythiadau i amaethyddiaeth a'r diwydiant ffermio (ac felly gynhyrchiant bwyd) a diwydiannau a masnachau eraill; difrod i seilwaith megis cynhyrchu ynni; a risg fwy o dân gwyllt.
- Difrod i ecosystemau a bioamrywiaeth.
- Effeithiau gwael ar elfennau eraill o iechyd cyhoeddus megis hentiau newydd sydd ar ddod; gwaethygiad mewn cyflyrau anadlu oherwydd cynnydd yn lefel daear yr osôn yn ystod yr haf⁹⁴; costau uwch ar gyfer ffrwythau a llysiâu⁹⁵.


Mae newid hinsawdd hefyd yn esgor ar gyfleoedd, megis gaeafau cynhesach gan leihau costau cynhesu tai, a gyda gostyngiad hefyd i lefelau tlodi tanwydd. Gallai hafau cynhesach arwain at fwy o dwristiaeth a gweithgareddau y tu allan⁹⁶, gwella cynaeafu a rhoi hwb i'r diwydiant ffermio anifeiliaid⁹⁷.

Mae goblygiadau penodol i iechyd yn sgil newid hinsawdd yn debygol o gynnwys cynnydd yn nifer y marwolaethau o achos gwres a llai o farwolaethau o achos oerni (Ffigurau 12 a 13). Mae goblygiadau o'r fath i iechyd yn debygol o effeithio ar grwpiau sy'n agored i niwed megis yr henoed.

Ffigur 12: Marwolaethau o achos gwres, graddfa grai fesul 100,000, bob person, o bob oed, 2000-2080



Ffigur 13: Marwolaethau o achos oerni, graddfa grai fesul 100,000, bob person, o bob oed, 2000-2080



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data a gafwyd gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd^{vi}

Senarios y Dyfodol

Mewn digwyddiad ar senarios y dyfodol yng Nghaerffili, roedd y sawl a gymerodd ran yn teimlo y dylid canolbwyntio yn y dyfodol ar ddiogelu ynni a meithrin datblygiad a defnydd ynni gwyrdd. Mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch bwyd a dŵr ar draws y byd yn ogystal â newid hinsawdd. Roedd bioamrywiaeth yn fater amserol ac fe fynegwyd pryderon ynghylch yr angen i roi stop i'r gostyngiad mewn rhywogaethau peillio, yn enwedig pryfed⁹⁸.

vi Nid yw'r cyfraddau marwolaeth gwres a rhagwelir rhagamcanol yn cymryd i ystyriaeth newidiadau o waelodlin y risgiau cymharol, trothwyon tymheredd a chyfraddau marwolaethau sylfaenol ar gyfer pob rhanbarth. Maent yn adlewyrchu patrwm o gynyddu yn golygu tymheredd dyddiol a maint cynyddol poblogaethau'r rhanbarthoedd

Risg gynyddol o lifogydd

Roedd yr holl asesiadau llesiant bron (17 ohonynt) yn mynegi pryderon ynghylch y risg gynyddol o lifogydd, gan nodi'r effaith ar gartrefi a busnesau, a'r modd y byddai'n amharu ar gymunedau cyfan⁹⁹.

Yn ogystal â goblygiadau ariannol, gall unigolion wynebu effeithiau llesiant corfforol a meddyliol am gyfnod wedyn, hyd yn oed beth amser ar ôl y digwyddiad. Gall llifogydd hefyd darfu'n sylweddol ar ddarpariaeth gofal iechyd¹⁰⁰.

Yn aml, y rhai yr effeithir arnynt waethaf gan lifogydd yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas¹⁰¹.

I fusnesau, mae llifogydd nid yn unig yn achosi difrod i'r adeilad, ond mae hefyd yn effeithio ar gadwyni cyflenwi a gwasanaethau cefnogi. Gallai mwy o daliadau polisi yswiriant effeithio ar y sector ariannol; efallai y bydd anawsterau wrth geisio cael yswiriant llifogydd a morgeisi ar gyfer rhai adeiladau. Mae llifogydd hefyd yn esgor ar fygythiad i seilwaith allweddol megis trafndiaeth ac ynni¹⁰². Amcangyfrifir rhwng 2004 a'r 2080au y bydd cost y difrod yng Nghymru o achos llifogydd 18 gwaith yn fwy, o £70 miliwn i £1,235 miliwn y flwyddyn (yn unol â'r senario fwyaf tebygol)^{103,104}.

Mynediad at fan gwyrdd

Mae teimlo cysylltiad â natur a'r amgylchedd naturiol yn fanteisiol am amryw o resymau gan gynnwys mynediad at weithgareddau hamdden ac adloniant, addysg neu drwy gael ymdeimlad o berthyn i le penodol¹⁰⁵. Mae bron i 90% o blant Cymru yn teimlo nad oes ganddynt gysylltiad â natur (sy'n ganran uwch na gweddill y DU) ac mae chwarter o blant Cymru yn dweud nad ydynt byth yn chwarae y tu allan¹⁰⁶.

Sylwadau'r gymuned

'Your Newport Survey 2016'¹⁰⁷ (662 o ymatebion):

Roedd ymatebion trigolion Casnewydd i'r cwestiwn *"What do you think your community would like to see more / less of in the next 20 years?"* yn cynnwys:

"I love its open and wooded green areas."

"More green areas with parks for children on new housing estates."

Mae'r trigolion yn gwerthfawrogi mannau gwyrdd Casnewydd, gyda bron i chwarter yn sôn am y gofod agored. Gan ystyried y dyfodol, mae ar y trigolion eisiau mannau y gofalwyd amdanynt a mwy o fannau gwyrdd, gyda mynediad at ffyrdd beicio ac ardaloedd chwarae i blant.

Ansawdd aer gwael

Yn Ewrop, tybir mai ansawdd aer gwael yw un o'r prif resymau dros fyrddwn amgylcheddol heintiau¹⁰⁸. Mae llygredd aer y tu allan yn rheswm mwy dros farwolaeth na damweiniau traffig ffyrdd, mwg tybaco yn yr amgylchedd a newid hinsawdd¹⁰⁹. Y rhai sy'n fwyaf agored i niwed yw plant, pobl hŷn a'r rheini sydd eisoes â chyflwr.

Yn y DU, gellir priodoli 40,000 o farwolaethau yn ychwanegol bob blwyddyn i ansawdd aer gwael gyda chost o £20 biliwn y flwyddyn mewn cysylltiad ag iechyd^{110,111,112}.


Amcangyfrifir y gellir priodoli 1,320 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru i ddod i gysylltiad â deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}) a 1,100 o farwolaethau i ddod i gysylltiad â nitrogen deuocsid (NO₂)⁴². Yn ogystal, mae dod i gysylltiad â PM_{2.5} dros y tymor byr yn gwaethygu cyflwr asthma,

ac mae dod i gysylltiad â $PM_{2.5}$ yn y tymor hir yn arwain at risg gynyddol o glefyd y galon, strôc a chanser yr ysgyfaint¹¹³. Mae dod i gysylltiad â NO_2 yn cynyddu'r risg o salwch a marwolaeth, ac mae dod i gysylltiad â NO_2 dros y tymor byr yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o salwch cardiofasgwlaidd ac o ran anadlu¹¹³.

Mae angen i gyrff cyhoeddus ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol weithredu i leihau faint o lygredd aer y mae pobl yn dod i gysylltiad ag ef, gan ddefnyddio dulliau aml-sector i atal a lleihau allyriadau fel rhan o strategaethau a pholisïau tymor hir.¹¹⁴

Mae fframwaith rheoli ansawdd aer Cymru¹¹⁵, yn cynnwys camau gweithredu ar lefel genedlaethol (polisïau megis gosod safonau allyriadau, a deddfwriaeth) a chymau gweithredu lleol (gweithredu'r gweithdrefnau Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol, gan sefydlu Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer os yw gofynion yr Amcanion Ansawdd Aer yn cael eu torri, neu'n debygol o gael eu torri). Yn eu hasesiadau llesiant, Caerffili¹¹⁶ Casnewydd¹¹⁷ a Chastell-nedd Port Talbot¹¹⁸ sy'n cyfeirio ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer a'r dulliau ar gyfer sicrhau gwelliannau gweladwy i ansawdd yr aer drwy wneud newidiadau i seilwaith y ffyrdd, lleihau faint o draffig sydd i'w gael a gwella llif y traffig hwnnw, a chefnogi defnydd llai o ffurfiau trafndiaeth sy'n achosi llygredd, gan ganolbwyntio ar deithio llesol.

Cymru iachach



“Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.”



Prif ganfyddiadau

- Erbyn 2025, yn ôl yr ymdrechion presennol, ma cyfraddau ysmegu yng Nghymru yn debygol o ostwng i 15%.
- Mae cyfran yr oedolion sydd dros eu pwysau neu sy'n ordew yn debygol o gynyddu o 58.3% (2013/15) i 62.2% (2025).
- Mae rhagamcanion ar gyfer Cymru yn dangos rhwng 2017 a 2035 y bydd cynnydd yn nifer yr oedolion â chyflyrau cronig, gan gynnwys diabetes (o 186,365 i 220,376), cyflwr ar y galon (o 253,406 i 321,986) a strôc (o 69,656 i 90,214).
- Erbyn 2035, bydd nifer yr oedolion â salwch meddwl cyffredin yn cynyddu o 417,121 yn 2017 i 447,159.
- Tybir y bydd nifer y bobl 65 oed a h n sy'n byw â dementia yng Nghymru yn cynyddu o 44,275 yn 2017 i 72,769 yn 2035.




Dangosyddion Iechyd Cyhoeddus

Mae rhai byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio'r rhagamcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sydd ar gael, a luniwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru¹¹⁹.

Ysmygu

Mae tri bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (sef Casnewydd, Bro Morganwg a Thorfaen) yn cynnwys data rhagamcanion ynghylch nifer ysmygwyr. Mae'r data hyn yn dangos, yn ôl yr ymdrechion presennol, fod cyfraddau ysmegu oedolion yn debygol o ostwng yng Nghymru i 15% erbyn 2025 (Ffigur 14). Fodd bynnag, mae tystiolaeth ryngwladol o Awstralia a rhannau o UDA yn awgrymu ei bod yn gyraeddadwy cyflawni gostyngiad mwy mewn cyfraddau ysmegu¹²⁰.

Ffigur 14: Amcangyfrif o'r ganran o oedolion yng Nghymru sy'n dweud eu bod yn ysmygwyr cyfredol, arsylwyd yn 2003/04-2005/06 i 2013-15 a rhagamcanwyd o 2016 i 2035. Cymru^{vii}



Sylwer y gall rhagamcaniadau 10 mlynedd fod yn fwy na therfynau realistig.

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio Cyflenwadau Iechyd Cymru (Llywodraeth Cymru) a rhagamcanion poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Systemau Cyflenwi Nicotin Electronig (sigaréts electronig)


Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn sôn am bryderon ynghylch y defnydd o sigaréts electronig, ond nit ydynt yn cynnig rhagamcanion ynghylch y mater yn y dyfodol. Mynegodd byrddau gwasanaethau cyhoeddus bryderon ynghylch y dryswch ymhlith pobl ifanc am y niwed sydd ynghlwm wrth e-sigaréts¹²¹ a'r anwybodaeth ynghylch yr effeithiau ar iechyd yn y dyfodol¹²². Mae ymchwil ddiweddar yn cynnwys plant 7 i 11 oed yng Nghymru wedi dangos bod bron yr holl blant a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn ymwybodol o sigaréts electronig ond mai prin oedd y ddealltwriaeth ynghylch niwed i iechyd a'r ansicrwydd ynghylch y ddeddfwriaeth bresennol¹²³.

Gordewdra a thuaddiadau bwyta ffrwythau a llysiau

Rhagamcenir y bydd cyfran yr oedolion nad ydynt yn bodloni'r canllawiau bwyta ffrwythau a llysiau yn ddyddiol yng Nghymru yn cynyddu o 67.7% yn 2013-15 i 74.3% yn 2025 (Ffigur 15). Roedd byrddau gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn mynegi pryderon ynghylch y lefelau cynyddol o oedolion a ohlant sydd dros eu pwysau neu sy'n ordew. Nododd un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus fod y cynnydd mewn cyfraddau oedolion sydd dros eu pwysau neu sy'n ordew er gwaethaf blynyddoedd o hybu ffordd iach a llesol o fyw¹²⁴.

vii Mae dull rhagamcanu allosodedig yn defnyddio teuddiadau a phatrymau hanesyddol i ragamcanu'r dyfodol. Mae'r dull hwn o allosod yn cymryd y bydd patrymau'r gorffennol yn parhau yn y dyfodol. Er bod hyn yn dybiaeth de gyn y tymor byr, po bellaf y ceisir rhagamcanu, y lleiaf sicr y byddwn o'r rhagamcan.

Ffigur 15: Amcangyfrif o'r ganran o oedolion yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn bodloni ffactorau byw penodol, arsylwyd yn 2003/04-2015 a rhagamcanwyd ar gyfer 2016-2025



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio Cyflenwadau Iechyd Cymru (Llywodraeth Cymru) a rhagamcanion poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Soniodd nifer o fyrdau gwasanaethau cyhoeddus am y goblygiadau posibl yn sgil lefelau gordewdra cynyddol, gan gynnwys cynnydd mewn nifer problemau iechyd cronig (gydag effaith ddilynol ar ddisgwyliad oes iach); mwy o anghydraddoldebau iechyd¹²⁵; ac effeithiau ar gynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol¹²⁶.

Gordewdra yn ystod plentyndod

Yn ôl Daffodil^{viii} (y Sefydliad Gofal Cyhoeddus), rhagamcener y bydd nifer y plant sy'n ordew yng Nghymru rhwng 2 a 17 oed yn lleihau fymryn o 104,015 o blant yn 2017 i 103,746 o blant yn 2035¹²⁷. Mae rhai byrdau gwasanaethau cyhoeddus wedi defnyddio system Daffodil i ragamcanu lefelau gordewdra yn ystod plentyndod yn y dyfodol yn eu hardal. Er enghraifft, mae disgwyl i gyfraddau gordewdra yn ystod plentyndod gynyddu yng Nghaerfyrddin, gyda bechgyn rhwng 2 a 15 oed yn wynebu'r risg fwyaf¹²⁸, ond yng Nghasnewydd, mae cyfran y plant 4 a 5 oed sydd dros eu pwysau neu sy'n ordew yn debygol o aros yn sefydlog yn y dyfodol¹²⁹.

Pwysau ysgafn ar adeg genedigaeth

Erbyn 2025, rhagamcener y bydd cyfran y babanod â phwysau ysgafn ar adeg eu genedigaeth yng Nghymru yn gostwng o 5.2% (2013-15) i 4.6%.

viii Mae Daffodil wedi cael ei ddatblygu gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac mae'n coladu gwybodaeth i gefnogi'r Gwaith o gynllunio gwasanaethau gofal ar gyfer y dyfodol. Caiff rhagamcanion eu datblygu ar gyfer ystod o faterion drwy gymwysu ffigurau Cymru i'r amcangyfrifon poblogaeth a ragamcener, heb ystyried tueddiadau'r gorffennol.

Iechyd meddwl a dementia

Mae rhagamcanion data Daffodil ar gyfer Cymru yn dangos y bydd nifer yr oedolion â salwch meddwl cyffredin yn cynyddu o 417,121 yn 2017 i 447,159 yn 2035¹³⁰. Mae rhai byrddau gwasanaethau cyhoeddus^{131,132,133,134} yn nodi tueddiadau tebyg yn eu hardaloedd lleol hwythau â rhai yn nodi materion penodol gan gynnwys:

- Y cysylltiad rhwng salwch meddwl a chadernid emosiynol isel ymhlith pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, a methiant i fynd i'r afael â'r materion hyn gan arwain at gylch parhaus o drosedd¹³⁵.
- Gall diwygiadau llesiant gael effaith negyddol ar lesiant hawllyr, gan osod gofynion uwch ar wasanaethau sy'n darparu cymorth, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau tai¹³⁶.

Iechyd meddwl plant


Er na chaiff ei drafod yn eang, mae rhai byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn rhagweld y bydd nifer y plant â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau ymddygiad yn cynyddu yn eu hardal leol^{137,138}. Mae rhagamcanion data ar gyfer Cymru yn dangos y bydd nifer y plant (rhwng 5 a 15 oed) sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cynyddu o 35,807 yn 2017 i 36,761 yn 2035¹³⁹.

Mae un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn nodi'r effeithiau tymor hir sydd ynghlwm wrth brofiadau bywyd cynnar megis bwlio neu gamdrin, a'r manteision o wella iechyd meddwl yn gynnar ym mywyd plant (i oedolion a phobl hŷn hefyd) megis llai o anghydraddoldebau, llai o ymddygiadau sy'n peri bygythiad i iechyd, a gwella iechyd corfforol, cynhyrchiant economaidd, swyddogaethau cymdeithasol ac ansawdd bywyd, gyda'r manteision i'w gweld ar draws y cenedlaethau¹⁴⁰. Mae cydnerthu'n cael ei ystyried yn hollbwysig i fynd i'r afael â materion rhwng cenedlaethau posib megis cam-drin domestig, magwraeth plant wael a bwlio¹⁴¹.

Dementia

Yn 2017, amcangyfrifwyd bod 44,275 o bobl dros 65 oed yng Nghymru yn byw â dementia, ac erbyn 2035, gallai hyn gynyddu i 72,769¹⁴².

Ffigur 16: Pobl y tybir bod ganddynt dementia o ran grŵp oedran, nifer, â'r holl bobl dros 65 oed, Cymru, â'r rhagamcan hyd nes 2035^{ix}



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn defnyddio Daffodil (Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus)

ix Nid yw'r newidiadau yn nifer yr achosion yn rhagamcanion Daffodil yn rhoi ystyriaeth I dueddiadau cyfredol dros dro o ran nifer achosion. Maent yn cynrychioli'r effeithiau a gâi demograffig y boblogaeth a ddisgwyllir yn unig ar nifer yr achosion ar bwynt penodol o amser.

Mae nifer achosion dementia cynnar (ymysg pobl iau na 65 oed) yn llai nag 1%, gyda'r rhagamcanion niferoedd hyd nes 2035 yn parhau'n weddol sefydlog^{143,144}. Er bod nifer achosion dementia fyryn yn is ymysg dynion o gymharu â menywod, mae disgwyl i'r cynnydd tybiedig yn nisgwyliaid oes dynion arwain at nifer y dynion â dementia yn cynyddu ar raddfa gyflymach¹⁴⁵.

Mae'r heriau posibl i Gymru yn y dyfodol yn cynnwys yr angen i reoli dementia mewn cymunedau gwledig a mynd i'r afael ag anghenion siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yr unigolion hynny nad ydynt ond yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i'w salwch waethygu¹⁴⁶.


Mae'r materion eraill a amlygwyd yn cynnwys:

- Mae menywod yn fwy tebygol o ofalu am bobl eraill â dementia, a maent fwy na ddwywaith yn fwy tebygol na dynion i ddarparu gofal a chymorth dwys¹⁴⁷.
- Gallai mentrau megis trefi 'dementia gyfeillgar' helpu i wella ansawdd bywyd y rheini sydd â'r cyflwr, yn ogystal â chefnogi gofaldwyr¹⁴⁸.

Afiechydon na ellir eu trosglwyddo

Mae disgwyl i nifer yr oedolion dros 18 oed sydd â salwch cyfyngol tymor hir gynyddu o 419,764 yn 2017 i 501,084 yn 2035¹⁴⁹, gyda chynnydd cysylltiedig yn y galw ar wasanaethau iechyd a gofal.

Ffigur 17: Y newid mewn canran yn y bobl y tybir bod ganddynt afiechydon penodol yng Nghymru, yn cynnwys pawb dros 18 oed, 2015-2035^{vii}



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn defnyddio Daffodil (Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus)

Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o ddata'r rhagamcanion ar gyfer ystod o afiechydon a chyflyrau na ellir eu trosglwyddo yng Nghymru, gan ddangos eu bod oll yn debygol o gynyddu erbyn 2035.

Tabl 1: Rhagamcanion ar gyfer afiechydon a chyflyrau na ellir eu trosglwyddo yng Nghymru, 2017 hyd at 2035^{vii}

Dangosydd	2017	Rhagamcan 2035
Pobl 18 oed a hŷn y mae disgwyl iddynt ddiodef o unrhyw gyflwr i'r galon (heb gynnwys pwysau gwaed uchel)	253,406	321,986
Pobl 16 oed a hŷn y mae disgwyl iddynt gael triniaeth ar gyfer strôc	69,656	90,214
Pobl 18 oed a hŷn y mae disgwyl iddynt fod yn achosion cancer newydd	19,810	25,069
Pobl 45 oed a hŷn y mae disgwyl iddynt gael cyflwr iechyd tymor hir wedi'i achosi gan glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	15,838	19,080
Pobl 75 oed a hŷn y mae disgwyl iddynt gael cyflwr llygaid cofrestradwy	18,763	29,563
Pobl 18 oed a hŷn y mae disgwyl iddynt gael nam ar y clyw sy'n gymedrol neu'n ddifrifol	345,607	475,527

Ffynhonnell: Daffodil. Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus.


Diabetes

Bae byrdwn cynyddol diabetes math 2 o ganlyniad i ystod o ffactorau gan gynnwys gordewdra, diffyg ymarfer corff, tueddiadau dietegol a phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r rhagamcanion ar gyfer Cymru yn dangos y bydd nifer yr oedolion dros 25 oed sydd â diabetes yn cynyddu o 186,365 yn 2017 i 220,376 yn 2035¹⁵⁰.

Mae diabetes yn fater pwysig i'r gwasanaeth iechyd, ac mae dau asesiad llesiant wedi cynnwys rhagamcanion lleol ar gyfer yr afiechyd¹⁵¹. Mae Ffigur 18 yn dangos enghraifft o ragamcanion diabetes a luniwyd gan ardal leol Gwent

Enghraifft leol: Gwent

Ffigur 18: Rhagamcan nifer yr achosion o diabetes math 2 fesur ardal awdurdod lleol, 2010-2030



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2013 gan ddefnyddio Model Mynychder Diabetes Arsyllfeydd y Gymdeithas Iechyd Cyhoeddus (APHO), 2010

Bygythiadau i Ddiogelu Iechyd


Mae'r bygythiadau a fydd yn dod yn y dyfodol yn ô byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys clefydau pandemig (sef clefyd newydd yn cael ei wasgaru ar draws y byd) mewn byd sy'n ffwf cysylltiedig; y perygl cynyddol o wrthsefyll gwrthfeicrobau^{152,153}; a'r effeithau posibl ar iechyd y cyhoedd yn sgil newid hinsawdd a thywydd eithafol¹⁵⁴. Gan gyfeirio at yr effeithiau posibl ar barhad busnes os bydd un o'r bygythiadau hyn yn dod yn wir, dywed bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Sir y Fflint:

"A failure to develop and test (business continuity) plans could lead to a greater mortality and distress, and have a wide ranging impact on many other vital services on which people depend."¹⁵⁵

Heriau i'r system iechyd yn y dyfodol

Disgwylir y bydd angen i wariant y GIG gynyddu 3.2% y flwyddyn mewn termau real o ganlyniad i newidiadau i'r demograffig, pwysau costau a chynnydd yn nifer achosion afiechydon cronig, oni bai y ceir camau gweithredu i leihau'r pwysau neu wella effeithlonrwydd. Byddai hyn yn golygu y byddai gwariant yn cynyddu o £6.5 biliwn yn 2015/16 i £10.4 biliwn yn 2030/31 (gan ddefnyddio prisiau 2016/17)¹⁵⁶. Mae Ffigur 19 yn darparu rhagamcanion gwariant ar gyfer gwahanol feysydd triniaeth yn GIG Cymru. Bydd gwariant yn cynyddu ar gyfer pob gwasanaeth, gyda'r cynnydd mwyaf yn debygol o fod mewn cofrestriadau nad ydynt yn ddewisol, yn bennaf o ganlyniad i'r boblogaeth hyn.

Ffigur 19: Mynegai o ragamcanion gwariant ar gyfer meysydd triniaeth unigol, o ganlyniad i nifer achosion cynyddol a chostau uned (2015/16=100)



Ffynhonnell: The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2030/31. Y Sefydliad Iechyd, 2016.

Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn nodi heriau sylweddol i weithlu'r system iechyd wrth geisio darparu gofal gwell gan gynnwys gweithlu sy'n heneiddio, cynnig gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos, prinder sgiliau a phroblemau recriwtio a'r galw cynyddol ar y system iechyd¹⁵⁷.

Mae nifer o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn tybio dros y pump i ddeng mlynedd nesaf y bydd yr heriau hyn, ynghyd â'r galw cynyddol, yn rhoi straen ar adnoddau ac mae diwygiadau strwythurol yn debygol o arwain at wasanaethau mwyfwy cydlynol o ran iechyd a gofal cymdeithasol, neu rolau swyddi newydd i bontio'r bwlch rhwng proffesiynau traddodiadol iechyd a gofal cymdeithasol^{158,159}.

Anghenion gofal a chymorth cymdeithasol

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at fanteision i'r gymdeithas, yn ogystal â gosod mwy o ofynion ar wasanaethau oherwydd anghenion gofal a chymorth cynyddol¹⁶⁰. Er enghraifft, erbyn 2035, mae disgwyl i nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n cael gwasanaethau preswyl ddyblu¹⁶¹.

Mae anghenion gofal cynyddol poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu, erbyn 2034, y bydd 11% o bobl 65 oed a hŷn yn ardal Caerfyrddin angen gofal¹⁶².

O gymharu â'r GIG, mae disgwyl i'r pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion gynyddu ar raddfa gyflymach (4.1% y flwyddyn rhwng 2015 a 2030/31) oherwydd y newid mewn demograffig, costau cynyddol a nifer uwch o bobl â chyflyrau cronig. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r gyllideb gofal cymdeithasol ddyblu bron i £2.3 biliwn dros yr un cyfnod¹⁵¹.

Gofalwyr di-dâl ar gyfer oedolion

Mae'n debygol y bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn esgor ar gynnydd yn nifer y gofalwyr di-dâl. Mae'n bwysig cefnogi gofalwyr, er enghraifft drwy ofal seibiant a gwasanaethau eraill, er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol¹⁶³. Mae darpariaeth gofal di-dâl yn y dyfodol yn debygol o gael ei ddylanwadu gan ffactorau megis cymorth gofal cymdeithasol, tueddiadau tymor hir mewn iechyd a llesiant, polisi tai, oedrannau ymddeol h n, a rhwydweithiau a strwythurau teulu a chyfeillgarwch¹⁶⁴.

Erbyn 2037, amcangyfrifir y bydd cynnydd o 40% yn nifer y gofalwyr sydd eu hangen ar draws y DU. Mae hyn yn gyfystyr â 2.6 miliwn o ofalwyr yn ychwanegol, gan gynyddu nifer y gofalwyr i 9 miliwn¹⁶⁵.

Mae ardaloedd lleol wedi nodi cynnydd yn nifer y gofalwyr di-dâl gan gynnwys dibyniaeth gynyddol ar ofalwyr hŷn¹⁶⁶ – a all fod ag anghenion llesiant cysylltiedig a'u hoedran eu hunain. Er enghraifft, rhwng 2011 a 2035:

- Bydd cynnydd o 8.4% yn nifer y bobl sy'n rhoi gofal di-dâl am dros 50 awr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cynnydd o 16.4% yn Sir Ddinbych a 15.2% yn Sir Fflint^{167,168}.
- Mae disgwyl y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr dros 65 oed – 35.3% yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 45.0% yn Sir Ddinbych a 55.2% yn Sir Fflint^{169,170}.


Gofalwyr ifanc

Mae Abertawe yn rhagamcanu bod disgwyl i nifer y gofalwyr ifanc barhau'n sefydlog rhwng 2015 a 2035 yn yr ardal leol¹⁷¹. Mae Powys yn sôn am ystod o faterion sy'n wynebu gofalwyr ifanc yn y dyfodol megis effeithiau gwael ar eu cyrhaeddiad yn yr ysgol a chyfleoedd i gael seibiant yn y tymor byr; anawsterau wrth geisio cael cyflogaeth yn y tymor canolig; a'r angen i gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu ar ben eu cyflogaeth a'u bywyd teuluol yn y tymor hir¹⁷².

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Fe wnaeth nifer o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus^{173, 174,175,176,177} bwysleisio mor bwysig yw ymyrraeth, megis ymyrryd ac atal yn y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar dystiolaeth, wrth fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (profiadau trawmatig sy'n digwydd cyn i blentyn droi'n 18 oed ac a gofir drwy gydol eu bywyd fel oedolyn) i wella llesiant cenedlaeth heddiw ac yfory, ond nid oedd dim rhagamcanion wedi cael eu nodi ar gyfer y mater hwn.


Cymru sy'n fwy cyfartal



"Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)."

Prif ganfyddiadau

- Erbyn 2024, mae disgwyl i'r bwlch disgwyliad oes iach rhwng yr 20% mwyaf difreintiedig a'r 20% lleiaf difreintiedig ym mhoblogaeth Cymru fod yn 12.7 mlynedd ar gyfer menywod ac 11.4 mlynedd ar gyfer dynion.



- Rhwng 2014-15 a 2021-22 disgwylir i dlodi cymharol yn y DU gynyddu o 21.3% i 23.6%, gyda chynnydd mewn tlodi cymharol ymysg plant o 29% i 35.7%.



- Yn sgil diwygio llesiant, efallai y caiff £1 biliwn ei dynnu o economi Cymru, sy'n cyfateb i £550 y flwyddyn fesul oedolyn oedran gweithio.
- Erbyn 2019, mae disgwyl i fil bwyd blynyddol cartrefi gynyddu £350.

Anghydraddoldebau iechyd cyson

Mynegodd nifer o fyrddau iechyd lleol bryderon ynghylch anghydraddoldebau iechyd a fyddai naill ai'n dal heb newid neu'n gwaethygu yn y dyfodol^{178,179}. Caiff hyn ei ddangos yn y bwlch parhaus mewn disgwyliad oes iach yng Nghymru.

Tabl 2: Disgwyliad oes iach ar adeg geni (blynyddoedd), arsylwyd 2010-2014 a rhagamcanwyd ar gyfer 2024, Cymru.

		2010-2014	2024
Menywod	Lleiaf difreintiedig	73.8	76.0
	Mwyaf difreintiedig	61.7	63.3
Dynion	Lleiaf difreintiedig	72.1	75.4
	Mwyaf difreintiedig	60.8	64.0

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn defnyddio Cyflenwadau Iechyd Cymru a MALIC (Llywodraeth Cymru), Amcanion Canol Blwyddyn a Rhagamcanion Ponlogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar osod senario, mae Powys yn nodi y bydd anghydraddoldebau yn annhebygol o newid yn y tymor hir heb newid sylweddol mewn polisi cyhoeddus (ar lefel macro ac ar lefel meicro)¹⁸⁰.

Incwm a thlodi

Mae'n anodd ceisio rhagamcanu yr effaith a gaiff newidiadau i'r economi ehangach o ran incwm a lefelau tlodi¹⁸¹. Mae *Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017* yn nodi bod lefel anghydraddoldeb incwm yn y DU wedi bod yn sefydlog neu wedi gostwng ers y 1980au, ond roedd cyfran fach o'r rheini â'r incwm uchaf wedi ymbellhau oddi wrth y gweddill. Mae anghydraddoldeb incwm yn debygol o waethygu o ganlyniad i ddiwygio llesiant¹⁸².

Bydd y rheini sydd o dan yr anfantais mwyaf oherwydd incwm isel yn wynebu heriau cynyddol megis costau uwch, gan arwain at anawsterau o ran sefydlogrwydd ariannol¹⁸³. Er enghraifft, roedd y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Busnes yn rhagamcanu y bydd bil bwyd blynyddol cartrefi yn cynyddu o £350 erbyn 2019¹⁸⁴.

Mae tlodi ymysg pensïynwyr yn lleihau, ond mynegwyd pryderon yn yr asesiadau llesiant ynghylch problem gynyddol tlodi ymysg pobl o oedran gweithio a'r ymchwydd mewn tlodi ymysg plant¹⁸⁵. Mae rhagamcanion y Sefydliad Astudiaethau Ariannol ar gyfer y DU¹⁸⁶ yn amcangyfrif rhwng 2014-15 a 2021-22 y bydd:

- cynnydd mewn tlodi cymharol o 21.3% i 23.6%
- cynnydd mewn tlodi cymharol ymysg plant o 29% i 36%
- tlodi absoliwt yn gostwng o 20.3% i 19.8%
- tlodi absoliwt ymysg plant yn cynyddu o 27.5% i 30.3%
- tlodi absoliwt ymysg pensïynwyr yn gostwng o 12.8% i 10.9%.


Effaith diwygio llesiant

Mae disgwyl i anghydraddoldeb incwm gynyddu o ganlyniad i ddiwygio llesiant. Mae Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025¹⁸⁷ yn amcangyfrif y gallai diwygio llesiant dynnu £1 biliwn o economi Cymru, sy'n cyfateb i £550 y flwyddyn fesul oedolyn oedran gweithio, sy'n sylweddol fwy na chyfartaledd Prydain (£470)¹⁸⁸. Mae newidiadau o ran diwygio llesiant yn effeithio ar y rheini sydd eisoes fwyaf mewn tlodi, er enghraifft teuluoedd â phlant. Mae lefelau tlodi yn debygol o waethygu yn sgil newidiadau eraill megis cyflwyno credyd cynhwysol a lleihau capiau budd-daliadau a hawliau credyd treth. Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn pryderu y bydd y Lwfans Byw Anabledd ar gyfer plant anabl yn cael ei ddefnyddio i dalu am fwyd, gwres neu rent¹⁸⁹.

Arbedion ariannol a dyled cartrefi

Mae arbedion ariannol cartrefi yn effeithio ar allu teuluoedd i ymdopi â biliau annisgwyl, a gallant wneud y gwahaniaeth rhwng ymdopi a pheidio ymdopi'n ariannol¹⁹⁰. Gall hyd yn oed cynnydd cymharol fach mewn llog o bosibl ddyblu nifer y cartrefi sy'n wynebu problemau ad-dalu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd¹⁹¹.

Cymru o gymunedau cydlynus





"Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da."



Prif ganfyddiadau

- Mae tua un o bob pedwar oedolyn sy'n byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o Gymru yn dweud eu bod yn teimlo'n unig, o gymharu ag un o bob wyth oedolyn sy'n byw yn yr 20% lleiaf difreintiedig o Gymru. Mae risg y bydd rhai grwpiau, megis cartrefi sydd ag un pensiynwr yn byw ynddynt, yn wynebu unigedd cymdeithasol ac mae'r sefyllfa hon yn debygol o waethgu yn yr ugain mlynedd nesaf.
- Erbyn 2020, bydd gofyn i landlordiaid cymdeithasol wella stoc tai er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.
- O fewn y 10 mlynedd nesaf, mae disgwyl i bob cartref yng Nghymru allu cael mynediad at y we, os bydd y cynnydd yn parhau ar y gyfradd bresennol. Fodd bynnag, gallai rhai grwpiau, megis pobl hŷn ar eu pen eu hunain, gael eu hallgau'n fwy fyth.



Tai fforddiadwy ac ansawdd tai

Prinder tai fforddiadwy

PMae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn nodi bod fforddiadwyedd cymharol tai wedi lleihau¹⁹² a bod cyflogau is mewn rhai ardaloedd yn golygu bod fforddiadwyedd yn bryder mawr¹⁹³. Mae Caerdydd yn nodi bod cost gyfartalog tai yn y ddinas yn tua wyth gwaith y cyflog cyfartalog, ac o blith dinasoedd craidd y DU, dim ond Bryste sydd â thai sy'n llai fforddiadwy. Mae Caerdydd hefyd yn cysylltu mater tai llai fforddiadwy â'r gostyngiad mewn safonau byw, effeithiau gwael ar lesiant meddwl ac anghydraddoldebau rhyng-genhedlaeth¹⁹⁴.

Ansawdd tai

Cydnabyddir bod safonau tai isel yn cyfrannu at afiechydon y gellid eu hosgoi megis afiechydon anadlu a chardiofasgwlaidd, salwch meddwl ac anafiadau, gyda chostau dilynol ar y gwasanaeth iechyd. Mae cartrefi oer hefyd yn cyfrannu at fwy o farwolaethau yn y gaeaf¹⁹⁵. Nodir bod stoc tai hŷn mewn rhai rhannau o Gymru yn fwy tebygol o fod yn anaddas i fyw ynddynt¹⁹⁶. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed ar gyfer landlordiaid cymdeithasol i wella'r stoc tai er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020¹⁹⁷.

Sylwadau'r Gymuned: Môn a Gwynedd

Fe wnaeth y bobl a ymatebodd i ddiwyddiadau ymgysylltu ym Môn a Gwynedd gysylltu cydlyniant cymunedol â'r diffyg tai fforddiadwy yn yr ardal. Mae nifer wedi dweud bod pobl ifanc yn gadael yr ardal oherwydd costau tai drud, ac mae trigolion wedi tynnu sylw at yr effaith negyddol y mae colli'r genhedlaeth iau yn ei chael ar gymunedau. Mae teulu, ffrindiau a chymdogion yn cael eu nodi i fod yn bwysig i lesiant^{198,199}.

Unigrwydd ac unigedd

Amcangyfrifir bod unigrwydd ac unigedd cymdeithasol yn cael effaith debyg ar iechyd ag yw ysmegu 15 sigarét y dydd²⁰⁰.

Mae un o bob pedwar (24%) oedolyn sy'n byw yn yr 20% o Gymru sy'n fwyaf difreintiedig yn dweud eu bod yn teimlo'n unig, o gymharu ag un o bob wyth (12%) oedolyn sy'n byw yn yr 20% o Gymru sydd leiaf difreintiedig. At hynny, mae lefelau unigedd cymdeithasol uchel yn cael eu hadrodd gan nifer gynyddol o bobl, yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru²⁰¹. Mae rhai grwpiau yn arbennig yn wynebu risg o unigedd cymdeithasol, megis cartrefi ag un pensynwr yn byw ynddynt, gofalwyr a phobl sydd â salwch meddwl; mae'r sefyllfa hon yn debygol o waethygu yn yr ugain mlynedd nesaf^{202,203}. Roedd nifer o asesiadau llesiant yn sôn am y materion a all fod yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd gwledig^{204,205}. Mae unigrwydd hefyd yn effeithio ar blant a phobl ifanc, ac fe roddodd Childline 4,063 o sesiynau cwnsela ynghylch unigrwydd yn 2016/17²⁰⁶.

Cydlyniant a llesiant cymunedol

Roedd trigolion mewn rhai ardaloedd wedi nodi mor bwysig yw ysbryd cymunedol iach i'w llesiant²⁰⁷. At hynny, cydnabyddir bod rhaid meithrin cydlyniant cymunedol er mwyn creu cymunedau ffyniannus a diogel sy'n gryf ac yn ddigon cadarn i wynebu heriau yn y dyfodol²⁰⁸. Roedd un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn awgrymu yr ystyrir cydlyniant cymunedol yn fwy cyson mewn ardaloedd lle bo gan y trigolion fwy o adnoddau, er enghraifft mewn pentrefi ffyniannus, neu lle bo traddodiad cadarn o gydweithio, megis cymunedau traddodiadol y cymoedd²⁰⁹. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod y gyfran o bobl sy'n dweud bod ymdeimlad o gymuned yn is o fewn yr 20% o Gymru sydd fwyaf difreintiedig (36%) o gymharu â'r 20% sydd leiaf difreintiedig (61%)¹⁵.

Cynhwysiant digidol

Er bod y gyfradd allgau digidol yn gostwng (mae Cymru mewn sefyllfa debyg i weddill y DU²¹⁰), mae tueddiadau'n awgrymu bod rhai grwpiau o gymdeithas yn wynebu canfod eu hunain ar y cyrion fwyfwy, er enghraifft pobl hŷn ar eu pen eu hunain, pobl anabl a chartrefi sydd ag incwm isel^{211,212}.


O fewn y 10 mlynedd nesaf, mae disgwyl i bob cartref yng Nghymru fod â mynediad at y we, os bydd y cynnydd yn parhau ar y gyfradd bresennol²¹³. Bydd trigolion a busnesau Cymru yn elwa ar raglen 'Superfast Cymru', a fydd yn cynnig cysylltiad band eang ffibr ledled y wlad²¹⁴. Roedd un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn tybio erbyn 2020 y byddai gan 50% o'i ddinasyddion â mynediad at gysylltiad band eang cyflym iawn ac y byddai gan 50% o'i ddinasyddion a'i fusnesau â mynediad at gysylltiad band eang tra chyflym²¹⁵.

Dyfodol gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r rhagamcanion a wnaed ar gyfer y dyfodol gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys:

- Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud defnydd mwyfwy o dechnolegau newydd er mwyn cael gwasanaethau ar gael y tu allan i oriau gwaith, a sicrhau bod modd eu defnyddio dros y we.
- Mae darpariaeth gwasanaethau drwy sefydliadau cymuned, sefydliadau tebyg neu sefydliadau trydydd sector yn debygol o ddod yn fwy cyffredin, gan arwain at ragor o arloesedd ynghyd â mwy o amrywiadau mewn darpariaeth.
- Bydd llai o wasanaethau cyhoeddus i'w cael am ddim ar adeg y ddarpariaeth. Mae hyn yn debygol o gael ei ddylanwadu gan dderbynioldeb cyflwyno ffioedd a'r graddau y gellir cynyddu trethiant cyffredinol i gynnal gwasanaethau am ddim ar adeg y ddarpariaeth²¹⁶.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden."



Prif ganfyddiadau

- Amcangyfrifir y collir rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn.
- Mae pryder bod risg y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei cholli erbyn cenedlaethau'r dyfodol, er gwaethaf y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.
- Disgwylir bod cymunedau sy'n berchen ar leoliadau a gwasanaethau, neu gymunedau sy'n eu cynnal, yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad diwylliannol.
- Mae'n debygol y bydd y costau sydd ynghlwm wrth gael mynediad at weithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn cael effaith negyddol ar ardaloedd difreintiedig.



Yr iaith Gymraeg

Mae tua un o bob pum person yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun dirywiad dros y ganrif ddiwethaf. Amcangyfrifir y colli rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn. Mae unrhyw dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers 2001 yn bennaf oherwydd cynnydd yn y siaradwyr Cymraeg hynny sy'n iau nag 20 oed²¹⁷. Mae wyth asesiad llesiant yn tybio yn seiliedig ar ddata tueddiadau hanesyddol y bydd dirywiad yn parhau yng nghyfran eu poblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. Mynegwyd pryderon mawr mewn ardaloedd lle caiff y Gymraeg ei siarad yn ddyddiol ar hyn o bryd ynghylch y risg y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei cholli erbyn cenedlaethau'r dyfodol^{218,219}, er i rai ardaloedd adrodd mai'r gyfran fwyaf o bobl sy'n gallu siarad y Gymraeg yw'r bobl ifanc a bod nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynyddu^{220,221}. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth²²² *Cymraeg 2050* yn amlinellu ei hamcan i sicrhau bod miliwn o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywyd erbyn 2050.

Bydd unrhyw ddirywiad i'r iaith Gymraeg yn y dyfodol oherwydd ffactorau'n cynnwys: newidiadau i'r demograffig a phatrymau mudo; peidio siarad Cymraeg gartref; diffyg hyder wrth siarad yr iaith; a phriodasau rhwng pobl Cymraeg a phobl di-Gymraeg²²³.

Y celfyddydau a diwylliant

Gan adlewyrchu'r gorchwyl anodd o ragamcanu datblygiadau yn y dyfodol ar gyfer y celfyddydau a diwylliant, prin iawn yw'r rhagamcanion yn y maes hwn yn yr asesiadau llesiant. Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus Gogledd Cymru yn tynnu sylw at werth rhagnodi cymdeithasol a'r effaith y gall diwylliant ei chael ar lesian^{224,225}. Roedd byrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn sôn am ba mor debygol oedd cael grwpiau cymunedol yn cynnal lleoliadau a gwasanaethau yn y dyfodol, gyda pherchnogaeth gymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad diwylliannol. Roedd ardaloedd mwy difreintiedig yn debygol o gael eu heffeithio'n negyddol gan y costau sydd ynghlwm wrth gael mynediad at weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, a gellid gweld diwedd yn y dyfodol ar weithgareddau nad ydynt yn ymarferol yn fasnachol²²⁶.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn pwysleisio mor bwysig yw celfyddydau ar gyfer iechyd a llesiant²²⁷. Mae wedi cynnig dull yn seiliedig ar bartneriaeth a chydweithio, gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganllaw, yn cynnwys camau gweithredu megis datblygu Cynllun Gweithredu Celfyddydau ac Iechyd ar y cyd â Chyddfederasiwn GIG Cymru, a sicrhau bod y celfyddydau yn elfen greiddiol o gynlluniau rhagnodi cymdeithasol.


Cymryd rhan mewn chwaraeon

Mae adroddiad a gomisiynwyd gan Grŵp Cyngori Chwaraeon Cymru²²⁸ wedi ystyried y tueddiadau sy'n debygol o effeithio ar chwaraeon hyd nes 2026, er mwyn i'r sector allu rhagamcanu ac ymateb i ofynion yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn nodi pedair senario bosibl yn y dyfodol yn seiliedig ar b'un a yw polisi yn y dyfodol yn annog ynteu'n llesteirio pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a'r graddau y bydd diwylliant yn hyrwyddo ffordd lesol o fyw:

- Talk the Walk – polisi sy'n annog, ond sy'n ennyn meddylfryd diwylliannol nad yw'n llesol
- Sportopia – polisi sy'n annog ac sy'n ennyn meddylfryd diwylliannol llesol
- Couch Culture – polisi sy'n llesteirio ac sy'n ennyn meddylfryd diwylliannol nad yw'n llesol
- Against the odds – polisi sy'n llesteirio ond sy'n ennyn meddylfryd diwylliannol llesol

Mae'r adroddiad yn nodi mai'r senario fwyaf tebygol i Gymru erbyn 2026 yw hanner ffordd rhwng y pedair senario, gyda pholisi nad yw'n annog yn llwyr nac yn llesteirio pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon, a'r polisi heb fod yn ennyn meddylfryd cwbl lesol neu heb fod yn llesol o gwbl wrth ystyried chwaraeon. Mae'r adroddiad yn argymhell cymryd camau pellach i hyrwyddo a gweithredu polisiau sy'n annog ac sy'n newid meddylfryd pobl wrth feddwl am chwaraeon ac ymarfer corff. Dylid nodi, yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisi cydweithio rhwng Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru²²⁹ i ddatblygu set gyfunol o gamau gweithredu i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol pobl.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang"




Prif ganfyddiadau

- O holl ddinasoedd mawr Prydain, mae disgwyl i Gaerdydd weld y cynnydd mwyaf yn y galw am nwy (44%) a thrydan (28%) erbyn 2035.



- Erbyn 2020, bydd tua 80% o danwyddau yn cael eu mewnfario o wledydd tramor.
- Erbyn 2021, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus un ardal yn rhagamcanu y gall 67% o'r defnydd o drydan ac 11% o'r galw am wres fod drwy ffynonellau adnewyddadwy.



- Mae gan Lywodraeth Cymru nod o fod â sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030, ac mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymrwmo i leihad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050.



Cymunedau amgylcheddol gynaliadwy

PMae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi amryw o gymelliadau i ymddwyn yn gyfrifol yn amgylcheddol, gan gynnwys newid hinsawdd, cost tanwyddau ffosil, targedau'r Llywodraeth ar gyfer allyriadau carbon a'r angen i leihau gwastraff tirlenwi²³⁰. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhagamcanu ei bod yn debygol y bydd effeithlonrwydd ynni, cynhyrchiant ynni a dulliau rheoli gwastraff yn parhau i wella. Fodd bynnag, efallai na fydd cynnydd mewn ymwneud cymunedau ag arferion amgylcheddol a chynaliadwy yn ddigon i herio heriau fel newid hinsawdd²³¹.

Ynni cynaliadwy

Galw cynyddol am ynni

Mae sawl Asesiad Llesiant yn rhagamcanu galw cynyddol am ynni. Gall y galw byd-eang am ynni gynyddu o 53% rhwng 2004 a 2030, gyda galw am nwy yn debygol o ostwng o 60% erbyn 2040²³². Os bydd dinasoedd byd-eang yn parhau i dyfu gydag estyniadau trefol, bydd cyfanswm yr ynni a gaiff ei ddefnyddio mewn ardaloedd dinesig yn treblu rhwng 2005 a 2050²³³. O holl ddinasoedd mawr Prydain, mae disgwyl i Gaerdydd weld y cynnydd mwyaf yn y galw am nwy (44%) a thrydan (28%) erbyn 2035²³⁴.

Cyflenwadau ynni

Mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi pryderon ynghylch natur ansicr y cyflenwadau ynni i'r DU. Erbyn 2020, bydd tua 80% o danwyddau yn cael eu mewnfario o wledydd tramor, a 50% o olew yn dod o wledydd lle gall eu sefyllfa fod yn ansefydlog^{235,236}. Gydag isadeiledd ynni sy'n heneiddio ac sydd angen gweld buddsoddiad cynyddol, ni fydd modd i Gymru gymryd cyflenwadau ynni o'r fath yn ganiataol erbyn 2050²³⁷.

Rhwng 2004 a 2015, cynyddodd y gyfran o drydan a gynhyrchwyd mewn modd adnewyddadwy yng Nghymru o 2.9% i 20%²³⁸. Mae cyfleoedd posibl yng Nghymru yn cynnwys datblygiad y morlyn ym Mae Abertawe (gan greu cyflenwad ynni morol lleol ynghyd ag arbenigedd lleol²³⁹); pŵer gwynt; solar ffotofoltaidd; ac ynni o wastraff a chnydau ynni. Erbyn 2021, gall 67% o'r defnydd o drydan ac 11% o'r galw am wres fod drwy ffynonellau adnewyddadwy yn ardal un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Torfaen)²⁴⁰. Fodd bynnag, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi bod angen buddsoddiad mewn isadeiledd a chefnogaeth wleidyddol, fel sy'n wir yn achos rhannau eraill o'r DU, er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau o'r fath²⁴¹.

Tra bo moratoriwm ar ffracio yng Nghymru ar hyn o bryd²⁴², tmae dyfodol ffracio yn parhau'n ansicr. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi lleisio eu pryderon ynghylch yr effaith a gâi ffracio ar ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a chynnydd mewn allyriadau carbon. Mae Sir Fynwy wedi nodi bod rhannau o'r sir wedi cael eu clustnodi ar gyfer eu trwyddedu ar gyfer ffracio yn ogystal â nweiddio glo o dan y ddaear²⁴³.

Symud tuag at gymdeithas carbon isel

Bydd cymdeithas carbon isel yn cefnogi addasiadau sy'n ymwneud â newid hinsawdd. Rhwng 1990 a 2014, mae sector cyhoeddus Cymru wedi lleihau allyriadau o 57% drwy weithgareddau fel gwneud defnydd mwy effeithlon o danwydd a newid i fod â gwres tân nwy. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei nod i fod â sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030 ac mae wedi cyflwyno deddfwriaeth (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), sy'n ymrwymo i leihau allyriadau yng Nghymru o 80% erbyn 2050. Mae'r sector cyhoeddus wedi cael ei adnabod i fod â rôl bwysig i leihau ei allyriadau ei hun (mae'r sector yn cyfri fel un o'r ystadau ehangaf yng Nghymru) a bod â rôl arweiniol wrth ddylanwadu ar eraill²⁴⁴. IYn 2014, defnyddiodd sector cyhoeddus Cymru lai nag 1% o'r cyfanswm o allyriadau CO₂e yng Nghymru, o'i gymharu â 65% gan y sector busnes, 13% gan y sector trafniadaeth, 13% gan y sector amaethyddol, 8% gan y sector preswylwyr a 2% gan wastraff²⁴⁵.

Trafnidiaeth gynaliadwy

Mae trafndiaeth dda yn ehangu cyfleoedd gwaith ac yn hyrwyddo llesiant yn lleol i ddinasyddion²⁴⁶. Mae *Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017* yn nodi bod cynnydd mwy wedi bod mewn traffig yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU (ar wahân i'r Alban)²⁴⁷. Mae nifer o ardaloedd lleol yn crybwyll cyfleoedd ar gyfer y dyfodol fel uwchraddio prif linell rheilffordd Abertawe-Llundain²⁴⁸, Metro De Cymru^{249,250}, a bod â cheir sy'n eu gyrru eu hunain. Mae un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Blaenau Gwent), gan ddefnyddio rhagamcanion traffig hyd at 2051²⁵¹, yn nodi nad yw cynnydd parhaus mewn traffig heb unrhyw gyfyngiadau yn gynaliadwy oherwydd canlyniadau amgylcheddol ac oherwydd cost ailddatblygu isadeiledd ffyrdd er mwyn diwallu anghenion. Mae gan Gaerdydd nod o fod â 50% o siwrneiau yn cael eu gwneud drwy drafndiaeth gynaliadwy erbyn 2021, gan anelu at darged o 60% erbyn 2026²⁵².

Partneriaethau rhyngwladol

Cymru o blaid Affrica

Mae Cymru wedi datblygu dros 150 o gysylltiadau cymunedol gydag Affrica dros y degawd diwethaf, a hynny'n cynnwys 22 o gysylltiadau ym maes iechyd²⁵³. Nod rhaglen Cymru o blaid Affrica²⁵⁴ yw i ddatblygu partneriaethau a all gyfrannu tuag at Amcanion Datblygu Cynaliadwy y Cenedloedd Unedig, â Llywodraeth Cymru a dinasyddion yn ymddwyn fel dinasyddion gweithredol a chyfrifol, ac i ymestyn y nod o greu Cymru yn wlad gyfrifol mewn cyd-destun byd-eang. Mae gweithgareddau'n cynnwys hyrwyddo lleoliadau a gefeillio, hyrwyddo gwirfoddoli mewn datblygu cynaliadwy rhyngwladol a hyrwyddo masnach deg ac agweddau moesol ar draws sectorau yng Nghymru.

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cyfeirio at 'synnwyr o berthyn i gymuned ehangach a dynoliaeth gyffredin. Mae'n pwysleisio cyd-ddibyniaeth a chydgyssylltiad gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol rhwng y lleol, y cenedlaethol a'r byd-eang²⁵⁵. Er mwyn meithrin diwylliant Dinasyddiaeth Fyd-eang drwy gydweithio rhyngwladol a phartneriaethau ac er mwyn cefnogi'r maes iechyd, mae hyfforddiant ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang wedi cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Rhyngwladol Cydlynw Iechyd. Nod yr hyfforddiant yw datblygu gallu'r GIG i gysylltu'n rhyngwladol, gan gefnogi'r rheini sy'n ymddiddori mewn partneriaethau rhyngwladol ym maes iechyd.

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Buddsoddi er Iechyd a Llesiant

Mae Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cael ei dynodi'n Ganolfan Gydweithredol ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant gan Sefydliad Iechyd y Byd. Bydd sylw'r Ganolfan Gydweithredol yn mynd ar hwyluso buddsoddi fel cymhelliad ar gyfer cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy ddatblygu, cyfuno a rhannu gwybodaeth ac adnoddau. Bydd gan y Ganolfan gyrhaeddiad byd-eang fel un ymysg rhwydwaith o fwy na 700 o Ganolfannau Cydweithredol mewn 80 o wledydd a bydd yn gweithio i hyrwyddo polisiâu cynaliadwy gan roi sylw i anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Rhan 2:

Datblygu meddylfryd tymor hir yng Nghymru

Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu'n fras y **dulliau** a ddefnyddiwyd i ystyried y dyfodol. Mae **astudiaethau achos** yn dangos senarios go iawn sy'n galw am ystyried y dyfodol, a defnyddir yr hyn a ddysgwyd o **gyfarfodydd trafod** yn cynnwys arbenigwyr ym maes y dyfodol er mwyn nodi argymhellion sy'n ymarferol ac sy'n bosibl i'w gweithredu yng Nghymru..



Dulliau

Mae ein hadolygiad o asesiadau llesiant wedi dangos bod ardaloedd lleol yn defnyddio ystod o ddulliau wrth ystyried y dyfodol. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol o ran y defnydd a wneir o dystiolaeth feintiol (hyd yn oed pan fo ar gael), er enghraifft o fodelu, tueddiadau neu ragamcanion; ac amrywiadau mewn gwybodaeth ansoddol a gasglwyd drwy drafodaethau â chymunedau a rhanddeiliaid. Anaml y defnyddir y dulliau sydd ar gael i gynorthwyo â'r gwaith o ystyried y tymor hir.

Mae "dyfodolwyr", hynny yw y rheini sy'n astudio'r dyfodol, yn aml yn galw am ystod o ddulliau, a all fod yn ansoddol, meintiol neu rhannol feintiol²⁵⁶. Mae rhai dulliau yn unigryw i astudiaethau'r dyfodol, tra bo eraill wedi'u benthg gan wahanol ddisgyblaethau yn cynnwys gwyddoniaeth, y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau²⁵⁷. Bydd nifer o'r dulliau a ddefnyddir mewn gwaith ar y dyfodol yn gyfarwydd i bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes, ac, mewn rhai achosion fe'u defnyddir yn rheolaidd.

Mae gwaith ar y dyfodol ar ei fwyaf effeithiol pan fo nifer o ddulliau'n cael eu defnyddio ar y cyd; mae'n bosibl y bydd un offeryn ar ei ben ei hun yn rhy gyfyngedig ac na fydd ond yn caniatáu archwilio un agwedd ar broblem²⁵⁸. Er enghraifft, gellir defnyddio dulliau i gefnogi gwahanol agweddau ar fformiwleiddio polisi gan gynnwys helpu i sicrhau consensws ynghylch materion a sut i fynd i'r afael â hwy; nodi materion posibl i'w ffeirio yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau polisi; datblygu polisiau a strategaethau sy'n fwy cadarn; a helpu i ysgogi rhanddeiliaid a chymunedau²⁵⁹.

Mae'r termau a ddefnyddir yn aml mewn gwaith ar y dyfodol yn cynnwys 'rhagamcanion', 'Tri Gorwel', 'Sefyllfaoedd annhebygol' ac 'Arwyddion gwan'..


Rhagamcanion

Mae'r term 'rhagamcanion' yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol â 'gwaith ar y dyfodol', â'r ddau fel ei gilydd yn defnyddio dull systematig wrth ystyried y dyfodol, â'r amcan o nodi camau gweithredu neu nodau a fydd yn helpu i gael canlyniadau gwell yn y dyfodol²⁶⁰. Mae I. Miles yn diffinio 'rhagamcanion' fel a ganlyn:

*"systematic, participatory, future-intelligence- gathering and medium-to-long-term vision-building process aimed at enabling present-day decisions and mobilizing joint action"*²⁶¹.

Mae rhagamcanion yn cynnwys defnyddio gwahanol ddulliau (er enghraifft senarios, Delphi, sganio'r gorwel) ac ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn i'r gwaith o wneud polisiau a phenderfyniadau roi ystyriaeth i'r tymor hir²⁶². Caiff ystod o wahanol ganlyniadau ac opsiynau strategol eu creu ar gyfer y gwahanol senarios yn y dyfodol er mwyn deall yr heriau a'r risgiau posibl ac i sicrhau y ceir ymateb rhagweithiol²⁶³. Mae Ffigur 20 yn crynhoi'r broses rhagamcanion.

Ffigur 20: Fframwaith rhagamcanion



Ffynhonnell: Joseph Voros, (2003) "A generic foresight process framework", Foresight, Cyfrol 5 Rhifyn: 3, tt.10-21, <https://doi.org/10.1108/14636680310698379>


Mae Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU, Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig²⁶⁴ aa Gweinyddiaethau Llywodraeth yn y Ffindir wedi dewis arddel y term 'rhagamcanion' i ddisgrifio'r prosiectau a'r gweithgarwch sy'n rhoi tystiolaeth i wneuthurwyr polisi i helpu creu polisiau sy'n fwy cadarn ar gyfer y dyfodol.

Mae'r dull o lunio rhgolygon wedi cael ei ddefnyddio gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer lechyd Cyhoeddus a'r Amgylchedd (RIVM), yn yr Iseldiroedd i ddatblygu cyfred o adroddiadau Rhagamcanion Statws lechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn darparu trosolwg o iechyd y cyhoedd, gyda'r nod o ganfod ffactorau pwysig sy'n peri ansicrwydd ar gyfer y dyfodol a llywio polisi (gweler yr astudiaethau achos ar dudalen xxx a'r adroddiad cefndirol atodol).

Tri Gorwel

Dyma ddull sy'n helpu i nodi sut y mae pwysigrwydd materion yn newid dros amser (Ffigur 21). Mae rhai materion yn rhai brys a phwysig yn y presennol, sy'n cael eu deall yn eang ac yr ymatebir iddynt fel arfer, ond efallai na fyddant mor bwysig yn y tymor hir (Gorwel 1). Mae materion Gorwel 2 yn dod yn fwy pwysig yn y tymor canolig, a materion Gorwel 3 yn fwy arwyddocaol yn y tymor hir, ond mae'n aneglur sut byddant yn datblygu a ph'un a fyddent yn esgor ar gyfleoedd ynteu fygythiadau. Mae gwaith ar y dyfodol yn canolbwyntio ar Orwelion 2 a 3.

Ffigur 21: Model Tri Gorwel



Ffynhonnell: Canolfan Fyd-eang Rhaglen Datblygu'r CU ar gyfer Rhagoriaeth mewn gwasanaethau Cyhoeddus (2018). Foresight Manual. Empowered Futures for the 2030 Agenda. Singapore: United Nations Development Programme.

'Arwyddion gwan' a 'sefyllfaoedd annhebygol'

Wrth edrych ymhellach i'r dyfodol, mae'n mynd yn anos canfod patrymau neu ddeall arwyddocâd yr hyn a arsylwir. 'Arwyddion gwan' yw'r datblygiadau sy'n aneglur ond sy'n rhoi rhybudd cynnar ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Maent yn oddrychol, a phrin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos y bydd y mater yn bwysig yn y dyfodol. Mae canfod arwyddion gwan yn gofyn am ddealltwriaeth o oblygiadau posibl yr arwydd.

Mae arwyddion gwan yn golygu y gellir nodi 'sefyllfaoedd annhebygol'. Diffinnir y rhain fel sefyllfaoedd neu ddigwyddiadau yr ystyrir eu bod yn annhebygol iawn, ond a allai gael effaith fawr pe byddent yn digwydd.

Dulliau

Yn yr adran hon, rydym yn canolbwyntio ar y dulliau a ddefnyddir gan amlaf neu sydd wedi cael eu hargymell gan arbenigwyr yn y maes (wedi'u haddasu gan Popper²⁵⁶, Rhaglen Datblygu'r CU²⁵³ a GO Science²⁴⁸). Er nad oes consensws ynghylch dosbarthiad y dulliau, mae un dull felly i'w weld isod.

Tabl 3: Dulliau a ddefnyddir wrth gynnal gwaith ar y dyfodol

<p>Dulliau ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch y dyfodol</p>	<p>Sganio Gorwelion</p> <p>Mae Sganio Gorwelion eisoes yn rhywbeth y mae nifer o sefydliadau yn ei wneud yn ddyddiol yn barod, ond mae'r graddau y mae'r weithgaredd yn llywio ac yn dylanwadu ar strategaethau yn amrywio'n fawr. Wrth drafod Sganio Gorwelion, disgrifiodd y Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd y weithgaredd fel a ganlyn:</p> <p><i>'.....a technique for detecting early signals of potentially important developments through a systematic examination of potential threats and opportunities, with emphasis on new technology and its effects on the issue at hand. The method calls for determining what is constant, what changes, and what constantly changes. It explores novel and unexpected issues as well as persistent problems and trends, including matters at the margins of current thinking that challenge past assumptions'</i></p> <p>(Y Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd, 2017)²⁶⁵</p> <p>Nid nod sganio gorwelion yw gwneud rhagdybiaethau, ond yn hytrach deall y patrymau mewn newid a'r hyn a allai ddigwydd²⁵³.</p> <p>7 Cwestiwn</p> <p>Mewn cyfweiliadau, gofynnwyd 7 cwestiwn penagored i'r sawl a gymerodd ran, wedi'u llunio i'w helpu i osod eu hunain yn y dyfodol ac ystyried unrhyw wybodaeth y gallent feddu arni ynghylch y dyfodol. Defnyddir y dull hwn fel arfer ar ddechrau prosiect i gasglu rhagamcanion strategol gan ystod o randdeiliaid.</p> <p>Delphi</p> <p>Defnyddir dull Delphi yn aml wrth ddatblygu consensws arbenigol ac mae'n cynnwys gofyn cwestiynau i unigolion droeon. Yng nghydestun gwaith ar y dyfodol, anfonir cyfres o holiaduron i arbenigwyr er mwyn casglu eu rhagdybiaethau ynghylch gwahanol dueddiadau. Gall hyn arwain at gonsensws mewn rhagamcanion neu flaenoriaethu materion²⁵⁴.</p>
<p>Dulliau ar gyfer deall newid</p>	<p>Dadansoddi / mapio ysgogiadau</p> <p>Ystyr 'ysgogiadau' yw materion sylfaenol a fydd yn ysgogi newidiadau yn y dyfodol. Mae dadansoddi ysgogiadau yn golygu nodi pa ysgogiadau (gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, deddfwriaethol ac amgylcheddol) sy'n ystyriaethau hanfodol ac a fydd yn siapio'r dyfodol.</p>

Dulliau ar gyfer disgrifio sut beth y gallai'r dyfodol fod

Senarios

Mae creu senarios yn ffordd effeithiol o helpu â'r gwaith o ddatblygu polisïau neu strategaethau. Nid diben senarios yw rhagamcanu y dyfodol, ond yn hytrach nodi ac ystyried ffactorau ansicr yn y dyfodol a deall yn well beth fydd goblygiadau polisïau a phenderfyniadau cyfredol.

Mae senarios normadol yn golygu disgrifio dyfodol a ffafrir a nodi ffyrdd o gyflawni hyn, ac fe'i datblygir trwy 'weithio am yn ôl' (gweler isod). Mae senarios archwiliol â'r nod o wella dealltwriaeth o effeithiau gweithredoedd, polisïau ac ysgogiadau cyfredol ar y dyfodol²⁶⁶.

Ystyrir cynllunio senarios i fod yn ddull cadarn, ond mae'n gofyn am lawer o adnoddau. Gellir llunio senarios drwy waith mewn swyddfa, gweithdai neu ddefnyddio dulliau megis modelu cyfrifiadurol, yn dibynnu ar ddiben y senario.

Gwelediadau

Nod llunio gwelediadau yw helpu cyfranogwyr i greu cyd-ddyfodol a ffafrir, y gellir eu defnyddio i ddatblygu polisïau, strategaethau, cynlluniau neu wasanaethau. Mae llunio gwelediadau fel arfer yn ystyried cyfnod o o leiaf 10 mlynedd yn y dyfodol a gall ganolbwyntio cyfranogwyr a rhanddeiliaid o amgylch un nod gyffredin.

Dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

Dyma ddull rheoli a ddefnyddir yn aml, ac yng nghyd-destun gwaith ar y dyfodol gall helpu sefydliadau i nodi sut i fanteisio ar gyfleoedd a lliniaru bygythiadau.

Dulliau ar gyfer datblygu a phrofi polisïau a strategaethau

Gweithio am yn ôl

Mae'r dull hwn yn cynnwys datblygu dyfodol dychmygol a ffafrir a gweithio am yn ôl i sefydlu llwybr yn y presennol i gyrraedd y nod. Yn wahanol i ragamcanion, sy'n golygu ystyried tueddiadau'r presennol i ddadansoddi'r dyfodol, mae gweithio am yn ôl yn golygu defnyddio'r dyfodol dychmygol i ddeall sut y gallai sefyllfa yn y dyfodol ddatblygu.

Mapio

Mae'r dull hwn yn golygu cynllunio pryd y gall digwyddiadau / polisïau / ymchwil gael effaith ar bwnc neu fater, a thrwy hynny alluogi cyfranogwyr i 'gamu i'r dyfodol'. Mae'n ffordd o roi dealltwriaeth gliriach o'r hyn a wyddys yn barod ynghylch y pwnc; meysydd i wneud tybiaethau yn eu cylch; a sut y gall newidiadau dros amser effeithio ar sut beth fydd y dyfodol. Defnyddir y dull yn aml gan sefydliadau sydd ar flaen y gad o ran technoleg.

Gwyntyllu / profi straen polisïau

Gellir defnyddio'r dull hwn i brofi sut y gallai'r dyfodol effeithio ar ddarpariaeth prosiectau, amcanion neu bolisïau. Gall cyfranogwyr ddychmygu sut y byddant yn bodloni amcanion mewn gwahanol senarios ac yna gallant nodi lle bo angen mwy o hyblygrwydd neu lle mae angen cryfhau polisi.

Mae dulliau eraill a ddefnyddir yn aml mewn gwaith ar y dyfodol yn cynnwys:

- **Ystyried tueddiadau a chreu rhagamcanion**

Mae ystyried tueddiadau yn dechreg sefydledig o ragamcanu gan ddefnyddio dulliau ystadegol sy'n seiliedig ar arsylwadau a wnaed dros gyfnod o amser. Defnyddir y dull o ystyried tueddiadau er mwyn rhagamcanu y patrwm yn y dyfodol yn seiliedig ar ddata'r cyfnod amser penodol.

Mae rhagamcanion yn cynnig amcangyfrifon mewn cysylltiad â'r dyfodol ac maent yn seiliedig ar wahanol dybiaethau; er enghraifft mae rhagamcanion o nifer achosion afiechydon yn adlewyrchu newidiadau i'r boblogaeth yn y dyfodol.

- **Ffuglen wyddonol**

Mae'r dull hwn cyn golygu datblygu storïau ynghylch cyfnod penodol yn y dyfodol, lle byddai digwyddiadau posibl eisoes i'w cael. Mae'r storïau yn helpu i ganfod goblygiadau'r digwyddiadau hyn. Er na ddefnyddir y dull hwn wrth wneud polisiau fel arfer, fe'i defnyddir yn aml mewn adroddiadau i ddangos dyfodol dychmygol..

- **Modelu**

Mae modelu yn golygu defnyddio dulliau cyfrifiadurol er mwyn helpu i ddeall y cysylltiadau a'r ddynmeg rhwng ffactorau a digwyddiadau (newidiol). Defnyddir modelau i gynrychioli realiti a gall helpu wrth ystyried yr hyn a allai ddigwydd yn y byd go iawn, gan helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall effaith polisiau ymlaen llaw²⁵³. Mae ystyried tueddiadau yn ffurf syml ar fodelu, ond defnyddir modelau mwy cymhleth yn cynnwys nifer yn rhagor o newidynnau mewn meysydd megis llunio polisiau economaidd.

- **Dadansoddi rhanddeiliaid**

Gellir defnyddio'r dull hwn i ganfod pa rhanddeiliaid a ddylai gyfrannu at waith ar y dyfodol ac ar ba bwynt yn y broses y dylent gyfrannu. O ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddiddordebau a dylanwad rhanddeiliaid, gellir rheoli perthnasoedd â rhanddeiliaid.

Cyfraniad arbenigol

Mae arbenigwyr yn cyfrannu at drafodaeth grŵp wedi cynnig cyngor ynghylch y dulliau:

- Mae'r dewis o ddulliau yn oddrychol ac nid oes dull cywir a dull anghywir. Efallai y bydd angen defnyddio dull dadansoddol ar rai achlysuron, er enghraifft senarios, ac efallai y bydd dulliau eraill megis llunio gwelediadau yn galw am ddull yn seiliedig ar werthoedd.
- Mae dulliau sydd eisoes ar gael, deunydd gweithdai a deunydd webinar y gellir eu haddasu i'w defnyddio gan sefydliadau yng Nghymru.
- Gellir defnyddio dulliau ar wahanol lefelau (polisi, strategaeth, gweithredol); mae'n bwysig nodi'r dull mwyaf priodol ar gyfer y lefel.
- Mae'n bwysig aildefnyddio dull ac ailadrodd rhannau o'r broses lle bo angen, gan gynnwys siarad â chymunedau a rhanddeiliaid ar sawl achlysur.
- **Senarios**
 - Prif rinwedd senarios yw i sbarduno sgysiau, a galluogi gwahanol ffyrdd o feddwl a helpu i feithrin dealltwriaeth o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
 - Mae ansawdd a gwerth creu senarios yn dibynnu ar y rheini sy'n cyfrannu at y broses. Mae cynnwys y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wrth gynllunio senarios yn allweddol.
 - Mae dulliau naratif megis 'bwrdd stori' yn gallu cynnwys cymunedau ac maent yn ddefnyddiol wrth lunio gwelediadau ar gyfer y dyfodol.
 - Mae defnyddio cyfuniad o ddulliau technegol a dulliau naratif i ddatblygu senarios yn sicrhau darlun gwell. Gellir defnyddio tueddiadau a data rhagamcanion i brofi'r senarios.
- Mae **gweithio am yn ôl** yn cynnig canolbwynt ac yn helpu i oresgyn heriau drwy ystyried y tymor hir.
- Mae'r broses **rhagamcanion** yn ddefnyddiol ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus wrth ymgymryd â gwaith polisi, arloesedd a strategaeth.
- Gall y fframwaith **Tri Gorwel** helpu sefydliadau neu sectorau sy'n ei chael yn heriol ystyried y tymor hir.
- Mae'r **7 cwestiwn** yn helpu i drafod ag arbenigwyr a chasglu gwybodaeth yn gyflym.
- Mae ystyried **dyfodol dychmygol** yn gwneud i'r dyfodol deimlo'n wir a gall helpu i sicrhau gwell ymgysylltu, yn enwedig mewn gweithdai.
- Mae rhywfaint o'r gwaith gorau a wneir ar y dyfodol yn cynnwys **dadansoddiadau manwl** o feysydd penodol,
- Mae **dylunio ar sail amcan** yn golygu creu darlun o'r dyfodol a gofyn i gyfranogwyr 'Sut y mae hyn yn teimlo?'. Mae hyn yn helpu i ennyn adborth ac yn annog sgysiau cynhyrchiol.
- Mae gan bob dull ei gyfyngiadau. Er enghraifft, efallai mai cyfyngedig fydd defnyddioldeb

GO-Science - The Futures Toolkit²⁴⁸

Nod yr adnodd hwn yw helpu gweithwyr polisi proffesiynol i ymgorffori ystyriaethau strategol dros y tymor hir mewn prosesau polisi a strategaeth.

Mae'r adnodd yn cynnwys:

- ✓ Cyflwyniad i'r gwaith o ystyried y dyfodol
- ✓ Llwybrau sy'n cyfuno dulliau yn ôl anghenion busnes
- ✓ Dulliau ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch y dyfodol
- ✓ Dulliau ar gyfer ystyried deinameg unrhyw newid
- ✓ Dulliau ar gyfer disgrifio sut beth fydd y dyfodol
- ✓ Dulliau ar gyfer datblygu a phrofi polisi a strategaeth
- ✓ Gwerthuso effaith defnyddio'r dulliau

Mae'r adnodd yn seiliedig ar brofiad GO-Science o wneud gwaith ar y dyfodol ac mae wedi'i ddatblygu ar y cyd ag adrannau eraill o Lywodraeth y DU a gweithwyr ym maes y dyfodol, sy'n defnyddio'r dulliau hyn mewn ystod o sefyllfaoedd.

Ceir rhagor o wybodaeth yma:

www.gov.uk/government/publications/futures-toolkit-for-policy-makers-and-analysts

Astudiaethau Achos

Prif bwyntiau

- Defnyddir 14 o astudiaethau achos o Gymru, y DU ac yn rhyngwladol er mwyn nodi sut y gall gwahanol dulliau helpu â'r gwaith o gynllunio a chreu polisiau ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r holl astudiaethau achos yn defnyddio dau ddull neu fwy gan gynnwys sganio gorwelion; gweithio am yn ôl; Delphi; 7 cwestiwn; senarios; profi straen polisiau; dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau; ffuglen wyddonol; a modelu.

Rydym wedi nodi 14 astudiaeth achos (tabl 4), sy'n cwmpasu gweithgarwch lleol a chenedlaethol yng Nghymru a'r DU yn ogystal ag enghreifftiau rhyngwladol o'r Ffindir, yr Iseldiroedd, Denmarc, Seland Newydd ac UDA. Mae pob astudiaeth achos yn dangos sut y gellir defnyddio gwahanol dulliau i helpu â gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, mae Astudiaeth Achos 2 (Lansbury Park: A Deep Place Plan) yn astudiaeth â ffocws lleol sy'n ystyried rhesymau a goblygiadau gweithgarwch economaidd mewn ystâd dai leol yng Nghaerffili, gan ddefnyddio dulliau'n cynnwys sganio gorwelion, dadansoddi data, cyfweiliadau un i un, grwpiau ffocws a gweithio am yn ôl. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch pob astudiaeth achos mewn adroddiad cefndirol ategol.

Mae astudiaethau'r dyfodol yn destun gwaith ymchwil academaidd. Er enghraifft, mae'r Finland Futures Research Centre (Ysgol Economeg Turku ym Mhrifysgol Turku, y Ffindir) yn gwneud gwaith ymchwil ar y dyfodol – un o rai adrannau'n unig yn y byd sy'n gwneud hynny^x.

Tabl 4: Crynodeb o'r astudiaethau achos sy'n defnyddio dulliau gwaith ar y dyfodol

Astudiaethau achos o'r DU	
1	<p>Future Drivers of the Health of Londoners (Public Health England and Association of Directors of Public Health London). 2016</p> <p>Prosiect a anogodd drafodaethau ymhlith timau iechyd cyhoeddus ac arweinwyr systemau ynghylch ysgogiadau iechyd yn Llundain yn y dyfodol, gyda'r nod o helpu â chynllunio strategol.</p> <p>Dull a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion, webinarau</p> <p>Rhagor o wybodaeth: http://adph.org.uk/networks/london/programme/future-drivers-of-the-health-of-londoners/</p>
2	<p>Lansbury Park: A Deep Place Plan (Deep Place Centre). 2017</p> <p>Astudiaeth a oedd yn ystyried y rhesymau dros ddiffyg gweithgarwch economaidd yn Lansbury Park, sef ystad dai fawr gan Awdurdod Lleol yn agos at ganol tref Caerffili, a goblygiadau'r diffyg gweithgarwch hwnnw. Lluniodd y prosiect bwyntiau gweithredu ar gyfer adfywio'r gymuned.</p> <p>Dulliau a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion; dadansoddi data; cyfweiliadau un i un; grwpiau ffocws; gweithio am yn ôl.</p> <p>Rhagor o wybodaeth: www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/News/LansburyParkDeepPlacePlan.aspx</p>
3	<p>Tredegar Deep Place Study (CREW, Regeneration Wales Adfywio Cymru). 2014</p> <p>Prosiect a anelwyd at ddatblygu dealltwriaeth o un lleoliad difreintiedig, gan nodi gwendidau (sy'n golygu cyfyngiadau), a chyfleoedd (y gellir manteisio arnynt) i sefydlu dyfodol cynaliadwy ar gyfer y gymuned.</p> <p>Dulliau a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion; gweithio am yn ôl.</p> <p>Rhagor o wybodaeth: www.regenwales.org/project_9_The--Deep-Place--Study</p>

4 Health & Safety Executive

Fe wnaeth tîm ymroddgar ddarparu rhagolygon i'r Health and Safety Executive, er mwyn nodi materion newydd sy'n ymddangos i allu rhoi gwybod i arbenigwyr a gwneuthurwyr polisi am risgiau posibl yn y dyfodol yn y gweithle i iechyd a diogelwch. Mae'r gwaith mwy diweddar yn cynnwys adroddiad ar y datblygiadau a ddisgwyllir yn null y DU wrth gynhyrchu, storio a defnyddio ynni.

Dulliau a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion; mapio ysgogiadau; Delphi; Echelinau Ansicrwydd; 7 Cwestiwn; senarios; profi straen polisiâu; dadansoddi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau.

Rhagor o wybodaeth: www.hse.gov.uk/horizons/

5 Newport 2050 Ward Scenarios (Netherwood Sustainable Futures). 2015

Comisiynodd Cyngor Dinas Casnewydd senarios ar gyfer sut y gallai rhai wardiau yng Nghasnewydd (Langstone; Liswerry; Pillgwenlly; Rogerstone) edrych yn 2050.

Dulliau a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion; cynllunio senarios; ffuglen wyddonol

6 Tackling Obesities: Future Choices (GO Science). 2004

Prosiect mawr gan Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth (GO Science) yn modelu tueddiadau'r dyfodol mewn gordewdra a'i effeithiau posibl ar iechyd yn y dyfodol, gyda'r nod o lywio polisi'r Llywodraeth a lleihau lefelau gordewdra.

Dulliau a ddefnyddiwyd: Coeden Faterion; dadansoddi ysgogiadau ar gyfer newid; senarios; mapio systemau; gwyntyllu.

Rhagor o wybodaeth:

www.gov.uk/government/publications/reducing-obesity-future-choices

7 Health Education England

Dull a roddodd i Health Education England dystiolaeth i fod yn sylfaen i strategaethau datblygu'r gweithlu a phenderfyniadau buddsoddi yn y tymor hir.

Dulliau a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion; datblygu ar sail tystiolaeth; dadansoddi ysgogiadau yn sgil galw.

Rhagor o wybodaeth: <https://hee.nhs.uk/our-work/strategic-framework>

8 Embedding horizon scanning activities across Public Health England (Public Health England)

Adolygiad gyda'r nod o sicrhau bod sganio gorwelion yn dod yn weithgaredd corfforaethol effeithiol sy'n galluogi sefydliadau i baratoi ar gyfer bygythiadau, risgiau, problemau a chyfleoedd yn well a chefnogi'r sefydliad i gyflawni ei swyddogaethau craidd.

Dulliau a ddefnyddiwyd: Adolygiad o lenyddiaeth; datblygu senario; gweithdy.

9 Future Transport Demand in the North of England (Transport for the North).

Astudiaeth a luniodd y senario cyntaf yn dangos y galw am drafndiaeth ar draws y Gogledd ar gyfer teithio ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd yn y dyfodol, gan roi gwell dealltwriaeth o ble y mae angen cysylltiadau gwell a buddsoddi mewn isadeiledd i gefnogi twf economaidd y Northern Powerhouse. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan y byddai defnyddio dulliau confensiynol o greu rhagamcanion yn annhebygol o ddangos y trawsnewidiad economaidd a ragwelwyd ar gyfer y Gogledd.

Dulliau a ddefnyddiwyd: cynllunio senarios; modelu

Rhagor o wybodaeth:

<https://transportforthenorth.com/wp-content/uploads/TfN-Future-Transport-Demand-Statement.pdf>

Astudiaethau achos rhyngwladol

- 10 Images of the Future of Social and Health Services (Finland Futures Research Centre (FFRC)). 2015**
Prosiect ymchwil a gynorthwyodd sector gofal iechyd a chymdeithasol y Ffindir (cyhoeddus a phreifat) wrth gynllunio eu gwasanaethau yn y dyfodol.
Dulliau a ddefnyddiwyd: gwaith arolygu ansoddol; Sganio Gorwelion; creu senarios
Rhagor o wybodaeth: www.utu.fi/en/units/ffrc/Pages/home.aspx
-
- 11 The Public Health Foresight Study 2018 (Rijksinstituut voor Volksgezondheid en Milieu – The Dutch National Institute for Public Health and the Environment). 2018**
Adroddiad a gyhoeddir bob pedair blynedd, yn darparu trosolwg o ddatblygiadau a ddisgwyllir yn y dyfodol o ran atal yng nghyd-destun iechyd, gofal iechyd, afiechydon, iechyd a'r pethau sy'n dylanwadu ar iechyd. Mae'r adroddiad yn sail i'r polisi iechyd.
Dulliau a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion; cynllunio senarios; dadansoddi data (y cynnwys rhagamcanion ar gyfer y dyfodol).
Rhagor o wybodaeth: www.vtv2018.nl/en
-
- 12 The Danish Healthcare System 2030 (Copenhagen Institute for Future Studies). 2017**
Adroddiad a nododd yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd yng nghyd-destun Denmarc.
Dulliau a ddefnyddiwyd: cynllunio senarios; Sganio Gorwelion; ymchwil fanwl.
Rhagor o wybodaeth: <http://cifs.dk/>
-
- 13 Future Demand (New Zealand Ministry of Transport). 2014**
Roedd y prosiect hwn yn ystyried ansicrwydd y galw ar gyfer teithio personol (defnydd car yn bennaf) drwy ddatblygu pedair senario yn y dyfodol (wedi'u gosod yn 2042) gan ystyried yr effaith bosibl ar deithio.
Rhagor o wybodaeth:
www.transport.govt.nz/multi-modal/keystrategiesandplans/strategic-policy-programme/future-demand/
-
- 14 Public Health 2030: A scenario exploration (Institute of Alternative Futures (USA)). 2014**
Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio canfod atebion i nifer o gwestiynau iechyd cyhoeddus sy'n wynebu UDA. Roedd yr adroddiad â ffocws cenedlaethol, ond roedd yn cynnwys dulliau atodol i helpu â gwaith ar y dyfodol i'w gynnal ar lefel leol.
Dulliau a ddefnyddiwyd: Sganio Gorwelion; cynllunio senarios; paneli arbenigol; gweithdai.
Rhagor o wybodaeth: www.altfutures.org/projects/public-health-2030/

Edrych tua'r dyfodol

Casgliad, argymhellion a'r camau nesaf



Casgliad

Mae Cymru ar bwynt hollbwysig yn y gwaith o ddatblygu ei ddull o ystyried a chynllunio ar gyfer y tymor hir, fel rhan o'i siwrne i adeiladu dyfodol cynaliadwy. Mae hyn wedi cael ei yrru gan feithrin Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd yn torri tir newydd, gan drosi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yng nghyd-destun Cymru. Rydym yn gwybod o brofiad gwledydd eraill y bydd y newid sydd ei angen yn cymryd amser; yn y Ffindir, mae wedi cymryd ugain mlynedd i ymgorffori gwaith ar y dyfodol yn y broses wleidyddol a sicrhau bod y gwaith hwnnw'n rhan o'r disgwrs cenedlaethol. Mae gan Singapore a'r Ffindir bwyllgorau penodol ar gyfer y dyfodol^{xi}, ac mae gan yr Alban Fforwm ar y Dyfodol (sef melin drafod yn cefnogi Senedd yr Alban i ystyried yr effeithiau a gaiff penderfyniadau yn y tymor hir yn y dyfodol)²⁶⁷.

Mae ein hadolygiad o asesiadau llesiant yn awgrymu y byddai byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn elwa o ymgorffori dulliau gweithio ar y dyfodol wrth ddatblygu strategaethau a llunio cylchoedd cynllunio – mae hyn yn debygol o adlewyrchu sefyllfa cyrff cyhoeddus a sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol bod rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, wedi dechrau ar y siwrne hon dros y flwyddyn ddiwethaf.

xi Ceir rhagor o wybodaeth yma: www.fdsd.org/ideas/the-committee-for-the-future-finnish-parliament/

Argymhellion

Mae'r argymhellion a ganlyn wedi'u targedu'n bennaf at gyrrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen arweinyddiaeth ac ymrwymiad gan bob sector i gyflawni newid mewn diwylliant ar draws Cymru, gan sicrhau bod ystyried y tymor hir yn rhan o benderfyniadau a gweithredu pob dydd.

Argymhelliad	Sylwadau	
Ymgorffori gwaith ar y dyfodol i gynllunio sefydliadol		
1	Rhaid i waith ar y dyfodol fod yn greiddiol i ymatebion cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	Gellir defnyddio dulliau gweithio ar y dyfodol i gefnogi strategaethau a chynllunio.
2	Dylai gwaith ar y dyfodol gael ei ddefnyddio i ymestyn cynllunio y tu hwnt i'r tymor byr a'r tymor canolig (3 i 5 mlynedd).	Gall sefydliadau ddefnyddio gwaith ar y dyfodol i symud tuag at gynllunio ar gyfer 25 mlynedd, fel yr anogir yn y Ddeddf.
Meithrin capasiti a sgiliau ar gyfer gwaith ar y dyfodol		
3	Meithrin capasiti, sgiliau a hyder ar gyfer gwaith y dyfodol drwy hyfforddi, mabwysiadu dulliau, dysgu o astudiaethau achos a chael arweiniad gan arbenigwyr yn y maes.	Dylai adeiladu capasiti fod ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n arwain ac yn datblygu gwaith ar y dyfodol.
4	Meithrin sgiliau'r gweithlu iechyd cyhoeddus ymhellach, er mwyn iddo allu cefnogi gwaith yn dyfodol.	Mae ymarferwyr iechyd cyhoeddus yn aml yn meddu ar y sgiliau perthnasol gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, gwybodaeth am iechyd ac asesu effaith ar iechyd
Buddsoddi mewn dulliau gweithio ar y dyfodol		
5	Defnyddio data a thechnoleg i'r eithaf a buddsoddi mewn dulliau modelu i wella dealltwriaeth o effeithiau polisiau a phenderfyniadau ar y dyfodol.	Gall modelu helpu i brofi syniadau a gwella dealltwriaeth o risgiau, cyfleoedd a goblygiadau mewn byd cymhleth. Gall technoleg megis technoleg rhithwir gael ei defnyddio wrth lunio senarios.
6	Sicrhau bod gwaith ar ddyfodol Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau presennol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth neu ar feysydd eraill sy'n destun gwariant sylweddol yn y sector cyhoeddus.	Sicrhau'r effaith fwyaf o adnoddau cyfyngedig trwy nodi bylchau a mynd i'r afael â hwy a chanolbwyntio ar feysydd o wariant sylweddol, megis iechyd a gofal cymdeithasol.
Cydweithio a rhannu mewnwelediad a gwybodaeth		
7	Dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus rannu mewnwelediadau ynghylch y dyfodol a chydweithio wrth gynnal gwaith ar y dyfodol.	Mae hyn yn cynnwys rhannu mewnwelediadau ac allbynnau sy'n deillio o waith ar y dyfodol. Er enghraifft, gan allbynnau o sganio gorwelion fod yn berthnasol i amryw o sefydliadau.

8	Sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar ddata, gwybodaeth, tystiolaeth, astudiaethau achos ac arfer addawol perthnasol, er enghraifft drwy un storfa a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd.	Dylai hyn hefyd gynnwys gwybodaeth ynghylch dulliau a thechnoleg newydd.
Defnyddio arbenigedd a phrofiad		
9	Defnyddio arbenigedd sefydliadau (neu unigolion) sy'n brofiadol yn cynnal gwaith ar y dyfodol.	Mae arbenigedd yn bodoli yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol ar draws wahanol sectorau gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal â'r byd academiaidd.
10	Dysgu o enghreifftiau o waith ar y dyfodol gan wledydd eraill ac ystyried sut y gellir cymhwyso hyn yng nghyd-destun Cymru.	Yn ogystal â gwledydd sydd eisoes yn cynnal gwaith ar y dyfodol, bydd enghreifftiau'n codi o wledydd eraill wrth iddynt hwythau ddatblygu eu hymateb i'r Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 gan y Cenhedloedd Unedig.
Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid		
11	Cynnwys cymunedau a dinasyddion o wahanol genedlaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, wrth wneud gwaith ar y dyfodol.	Bydd cyfraniad y rhain yn gwella gwaith ar y dyfodol drwy herio meddylfryd a rhagdybiaethau, creu syniadau newydd a grymuso cymunedau. Mae gwaith ar y dyfodol ar gyfer pawb, ac nid proses academaidd ydyw yn unig.
12	Wrth gynnal gwaith ar y dyfodol, dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus gynnwys rhanddeiliaid traws-sector o feysydd polisi, ymarferol a'r byd academiaidd.	Gall pob sector gyfrannu at waith ar y dyfodol ac elwa o'r gwaith hwnnw; bydd cydweithio yn helpu i gyflymu'r cynnydd.
Gwerthuso newid		
13	Dylid adolygu statws gwaith ar y dyfodol fel mater o drefn.	Dylid defnyddio gwaith ar y dyfodol i lywio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal ag asesiadau llesiant ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus.
14	Dylid gwerthuso unrhyw waith ar y dyfodol a wneir yng Nghymru.	Bydd gwerthuso yn helpu i gael dealltwriaeth o effeithiau gwahanol ddulliau.

Y camau nesaf

